Carwn eich croesawu'n unigol, ond ni ddilynaf y rhestr sydd gennyf gan eich bod chi i gyd wedi newid lle. Carwn groesawu Eifion Pritchard, cadeirydd Golwg ar Bost Cymru, Gary Watkins a Ken Hanbury o Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu, Dave Barrett a Stuart Taylor o Swyddfa'r Post Cyf, Mike Whitehead a Nigel Leese o'r Adran Masnach a Diwydiant, a Tony Kuczys a Christine Goodfellow o'r Adran Gwaith a Phensiynau. Diolch yn fawr i chi i gyd am ddod. Y ffordd orau i wneud hyn, yr wyf yn credu, yw inni ofyn am wybodaeth am unrhyw ddatblygiadau, fel y dywedais, gan yr adrannau y cawsom bapurau briffio ganddynt. Os dymunwch gyfeirio at y papurau briffio, mae hynny'n iawn. Felly, fe'ch galwaf yn unigol i sôn am eich papurau briffio. Yn gyntaf, carwn ofyn i'r Gweinidog gyflwyno papur am y datblygiadau diweddaraf gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

[2] **Edwina Hart:** Diolch yn fawr iawn i chi, Gadeirydd. Fel y gwyddoch, mae'r pwyllgor wedi mynegi pryder am ddyfodol swyddfeydd post trefol a gwledig. Credaf y bydd y cyfarfod heddiw'n fodd i gael trafodaeth uniongyrchol â'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Adran Masnach a Diwydiant ar yr effaith a gafodd polisi Llywodraeth a materion sy'n ymwneud ag ef ar Gymru. Yr wyf hefyd yn bryderus ynghylch y rhwydwaith post yng Nghymru, ac amcan cronfa datblygu swyddfeydd post y Cynulliad yw helpu i gynnal y rhwydwaith post mewn ardaloedd gwledig a threfol. Fel y gallwch weld o bapur y pwyllgor, ar ôl cael cadarnhad gan Swyddfa'r Post Cyf na chymerai gamau i gau canghennau a gefnogir gan y gronfa tan 31 Mawrth 2008, yr wyf wedi cytuno i barhau â'r gronfa ac yr wyf bellach wedi rhoi £4.1 miliwn arall i 105 o swyddfeydd post. Wrth gwrs, croesewais gyhoeddiad yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant y rhoddir £300 miliwn tuag at gynnal y rhwydwaith gwledig hyd 31 Mawrth 2008. Er hynny, deallaf y bydd Swyddfa'r Post, ochr yn ochr â hynny, yn cynnal cynlluniau peilot i ystyried dulliau gwahanol o ddarparu gwasanaethau post. Er fy mod yn cydnabod bod angen gwneud hynny, pryderaf ynghylch effaith bosibl hynny ar y swyddfeydd sy'n cael eu hariannu gan y gronfa datblygu swyddfeydd post ar hyn o bryd, gan fy mod yn deall na fydd Swyddfa'r Post Cyf yn rhoi ar waith ei pholisi o beidio â chau swyddfeydd post os gellir osgoi hynny tan ar ôl 31 Mawrth 2006. Gan hynny, ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol gan nodi fy mhryderon ynghylch hynny a gofynnais am gadarnhad bod yr ymrwymiad a gafwyd gan Swyddfa'r Post Cyf yn parhau ac y bydd y polisi o beidio â chau swyddfeydd post os gellir osgoi hynny yn gweithredu tan 2008 yn achos swyddfeydd post a ariennir gan y gronfa datblygu swyddfeydd post. Credaf ei bod yn eithaf amlwg ein bod yn sôn am ddefnyddio arian Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddelio â mater sydd heb ei ddatganoli, gan ein bod yn pryderu am ein cymunedau yng Nghymru ac mae gennym gonsensws rhwng y pedair plaid wleidyddol ar y fenter hon.

Datblygiad arall y credaf ei bod yn bwysig imi sôn amdano yw fy mod wedi cwrdd â chynrychiolwyr Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu yn gynharach yr wythnos hon i drafod eu pryderon ynghylch y diffyg buddsoddi yn y canolfannau post yng Nghymru. Ymhellach i'r cyfarfod ag Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu, ysgrifennais at Don Touhig am y diffyg buddsoddi yn y canolfannau post yng Nghaerdydd, Abertawe a Chaer. Yr wyf yn bryderus bod post a anfonir yng Nghymru bellach yn cael ei brosesu ym Mryste oherwydd nad oes peiriant yn y ganolfan yng Nghaerdydd. Achubais ar y cyfle hefyd i ysgrifennu at Gareth Davies, a fydd, wrth gwrs, yn bleidiol i unrhyw fuddsoddi mewn canolfannau yng Nghymru, ac yr wyf yn falch iawn o weld hynny. Er hynny, mae gennyf bryderon am swyddi ac am yr effaith ar Gymru. Yr wyf yn arbennig o bryderus y cawn farciau post o Fryste ar eitemau a aeth allan o Gymru fel y gallant ddod yn ôl i Gymru. Felly, dyna ychydig o wybodaeth am ein sefyllfa ar hyn o bryd. Sylweddolaf nad myfi sy'n cael fy holi heddiw. Caiff aelodau ofyn cwestiynau imi ryw dro yn y pwyllgor. Wrth gwrs, lle'r pwyllgor yw trafod materion gyda phartion eraill.

[3] **Janice Gregory:** Diolch yn fawr iawn i chi, Weinidog. Trof yn awr at Ken Hanbury o Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu. A oes gennych unrhyw newydd am ddatblygiadau ers eich cyflwyniad ym mis Mawrth, Ken?

Mr Hanbury: Oes. Cyfeiriaais ym mis Mawrth at y buddsoddi mewn peiriannau didoli modern, y mae ei daer angen arnom yng Nghymru, yn bennaf gan fod gennym dair canolfan prosesu post yng Nghymru. Yr wyf yn cynnwys Caer, gan ei bod yn prosesu'r post ar gyfer arfordir y Gogledd ar ei hyd, ac mor bell i'r de â Wrecsam a'r tu hwnt.

Yn y misoedd diwethaf, dywedwyd wrth yr undeb yn genedlaethol—wel, mae wedi digwydd bellach, drwy gytundeb â'r undeb, ond mae peiriannau'n cael eu gosod mewn mannau fel Manceinion, Trebedr, Wolverhampton, Gatwick a Bryste. Er mwyn i'r pwyllgor gael deall, gan fod y peiriannau hyn wedi'u gosod mewn dinasoedd sydd mewn mannau strategol, mae'r post yn cael ei ddargyfeirio er mwyn cadw'r peiriannau i redeg. Nid ydych yn gwario miliynau o bunnoedd ar beiriannau a'u rhedeg wedyn am lai na 24 awr y diwrnod. Gan hynny, mae Caerdydd eisoes wedi colli 47,000 o eitemau post y dydd yn yr ardal i Fryste. Fodd bynnag, gan fod Bryste yn cael trafferthion—a chyfeiriaais at hyn ym mis Mawrth—o ran staff a chadw staff, o fewn dyddiau i'r trosglwyddo hwn, penderfynodd y rheolwyr ym Mryste na allent ddelio â'r gwaith ychwanegol, ac fe'i dychwelwyd i Gaerdydd, ond dim ond yn y tymor byr y mae hynny. Cawsom fod Bwrdd Croeso Cymru, er enghraifft, yn mynd â'i bost i Gaerdydd a'i fod yn cael ei gludo i'r ganolfan bost ym Mryste. Rhaid trosglwyddo'r eitemau mawr hyn, gan eu bod yn rhy fawr i beiriannau o oed y rhai a geir yn Ffordd Penarth—ni allant drafod cymaint â hynny o bost. Pe byddai gennym beiriannau mwy modern, a phe ceid buddsoddi, er enghraifft, ni fyddid yn gorfod cludo post o Gaerdydd i Fryste. Mae hyn yn digwydd yn achos Bwrdd Croeso Cymru, ac mae'n ddigon posibl ei bod yn digwydd yn achos yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau yn Abertawe sydd hefyd yn anfon nifer mawr o eitemau drwy'r post. Mae'n ddigon posibl y cânt eu trosglwyddo i Fryste.

Mae sefyllfa'n codi yng Nghaer hefyd, sy'n barod ar gyfer gosod peiriannau newydd. Ni fyddai hynny'n peri problem: mae digon o le yno, a gwyddom fod holl eitemau mawr y post ail ddsbarth wedi'u trosglwyddo i Wolverhampton—digwyddodd hynny rai misoedd yn ôl. Felly, cyn hir, pan fydd y gwaith ym Manceinion yn dechrau a phan geir problemau cychwynnol yno, mae'n ddigon posibl y bydd llwythi o bost yn mynd i Fanceinion o'r Gogledd. Felly, y canolfannau post ym Manceinion, Wolverhampton a Bryste fydd ar eu hennill ac, yn y pen draw, os na cheir buddsoddi mewn peiriannau newydd yng Nghaerdydd, Caer ac Abertawe, hwy fydd yr unig ganolfannau post sy'n weddill, ac ni fydd y tair yn Abertawe, Caerdydd a Chaer yn fawr mwy na swyddfeydd dosbarthu, neu orsafoedd cyflenwi fel y maent yn eu galw.

Mae'n debyg mai yng Nghaerdydd y mae'r gobaith mwyaf o gael peiriannau newydd. Hi yw prifddinas Cymru, a chredwn y dylai fod yn gyfartal o leiaf â'r dinasoedd eraill y cyfeiriaais atynt. Mae'r rhan fwyaf o eitemau sydd â'r codau post SY a LD ar gyfer y Canolbarth, a drosglwyddwyd i Amwythig flynyddoedd yn ôl, wedi mynd i Wolverhampton. Credwn y byddai'n ddigon rhwydd wedyn rannu holl eitemau'r post ail ddsbarth ledled y Canolbarth yn ddaearyddol rhwng Abertawe a Chaerdydd. Pe byddai rhywun yn y Post Brenhinol yn eistedd i siarad gyda'r undeb, gwelai nad yw'n fwriad gennym fynd ar streic bellach am fod heddwch wedi cychwyn, ond y byddem yn barod i daro bargaen ynghylch ai yn Abertawe, Caerdydd neu Gaer y gwneir hyn.

Yr wyf eisoes wedi sôn am y rhaglenni canoli. Yr hyn a welir yma yw colled i weithwyr post yng Nghymru, oherwydd, ac yr wyf wedi dweud hyn dro ar ôl tro ond mae'n un o ffeithiau bywyd, ni welir trosglwyddo post o Fryste, Birmingham, Manceinion, Trebedr a Gatwick yn rheolaidd i'r pen yma, lle y gallwn ymdopi ag ef. Yr hyn a geir yw bod post a thraffig yn lleihau'n araf ac, wrth gwrs, yn y diwedd dechreuir colli swyddi. Byddem yn honni felly fod taer angen buddsoddi yn y tair canolfan bost yng Nghymru ac, yn niffyg rhywbeth arall, efallai y bydd yn rhaid inni dderbyn yn anfoddog mai Caerdydd, prifddinas Cymru, a gaiff y rhan fwyaf o'r buddsoddiad hwnnw.

[4] **Janice Gregory:** Diolch yn fawr ichi am roi gwybod inni am y datblygiadau diweddaraf, Ken. Mae'n ddrwg gennyf, yr oeddwn ar fai yn anghofio gofyn i'n hymwelwyr ar y dechrau a fyddent gystal â phwyso botwm y meicroffon o'u blaen cyn siarad. Diolch i chi. Mae gennych wybodaeth am y datblygiadau diweddaraf inni, Stuart.

Mr Taylor: Oes, mae gennyf ychydig o wybodaeth. Mae'n wybodaeth am ddatblygiadau a fu ynghylch y cynllun adnewyddu ers y tro diwethaf inni ddod gerbron y pwyllgor. Hwn yw'r cynllun adnewyddu ar gyfer y grwp cyfan sy'n ymwneud â'r holl faterion sy'n codi, y cyfeiriodd Ken at rai ohonynt, yn ogystal â materion sy'n ymwneud â Swyddfa'r Post. Siaradaf yn fyr, ond credaf ei bod yn bwysig egluro'r hyn a ddigwyddodd ers inni fod yma ddiwethaf.

Os caf eich atgoffa, mae'r busnes bellach ar drothwy chwarter olaf cynllun adnewyddu tair blynedd ar gyfer grwp y Post Brenhinol, y mae iddo bedwar amcan: peri i'r Post Brenhinol fod yn lle gwell i weithio, cynnig gwell gwasanaeth i gwsmeriaid, adfer proffidioldeb y busnes, a chael llif arian cadarnhaol yn ein busnes post. Y disgwyl wrth weithredu'r cynllun adnewyddu hwnnw yw y bydd y grwp yn rhedeg ar elw eto erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, sef mis Mawrth nesaf.

Os caf eich atgoffa'n fyr am y gweithgareddau sy'n ffurfio'r cynllun adnewyddu—yr ydych wedi cyfeirio at rai ohonynt eisoes, Gadeirydd—y rhain yw'r newid at ddsbarthu'r post unwaith y diwrnod, chwe diwrnod yr wythnos; rhaglen cau yn y rhwydwaith swyddfeydd post trefol, y bydd fy nghydweithiwr, Dave, yn dweud ychydig yn fwy amdani ymhen eiliad; ad-drefnu busnes Parcelforce Worldwide ledled y DU; ad-drefnu ein rhwydwaith trafndiaeth, yn yr awyr ac ar ffyrdd a rheilffyrdd, i roi gwell gwasanaeth; cyflwyno mwy o fesurau effeithlonrwydd yn ein canolfannau post; ac adolygu meysydd ymylol lle y gallwn wneud arbedion, gan gynnwys y dewisiadau allanol.

Rhoddaf y newydd diweddaraf yn sydyn yn awr am y Post Brenhinol. Yng Nghymru, o blith 104 o swyddfeydd dosbarthu, mae 101 wedi dechrau dosbarthu'r post unwaith y diwrnod, felly rhaid inni gyflwyno'r newid hwnnw yn y tair swyddfa olaf, y mae'r cwbl ohonynt, gyda llaw, yn y De. Gwneir cynnydd ar awtomeiddio, ond mae llawer iawn i'w wneud eto, fel y gwyr Ken yn dda: rhaid inni ddatblygu cynlluniau pellach. Rhaid inni symud tuag at gael rhwydwaith trafndiaeth mwy integredig. Gwnaethom rai newidiadau mawr, a theg fyddai dweud bod rhai ohonynt wedi gweithio'n dda, a bod eraill heb wneud cystal. Yr ydym yn gorfod gwneud mân newidiadau iddynt i sicrhau ein bod yn gweithredu'n gadarn ledled y DU, yn enwedig gan ein bod ar drothwy ein cyfnod prysuraf yn y flwyddyn, y Nadolig. Y mater hollbwysig yw bod gwir angen inni wneud y newidiadau hyn, oherwydd dim ond drwy gael elw o'r newidiadau hynny, y gwelliannau mewn effeithlonrwydd, y byddwn yn gallu talu am bethau fel codiad cyflog derbynol i weithwyr a gwell telerau ac amodau, ac, wrth gwrs, ailfuddsoddi yn y gwasanaeth.

Ynghylch sefyllfa Parcelforce, mae'r busnes yn rhoi pob sylw'n awr i'w wasanaeth â gwarant amser yn y farchnad ddomestig ac i'w gynhyrchion rhyngwladol. Mae'r parseli arferol nad oes raid eu dosbarthu ar adeg benodol yn cael eu trafod bellach gan y Post Brenhinol yn y rhan honno o'r busnes. Y targed ar gyfer Parcelforce yw y bydd yn talu ei gostau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon ac, er nad yw hynny'n ymddangos yn uchelgeisiol efallai, mae hynny'n gryn her i'r busnes hwnnw yng ngolwg y sefyllfa y bu ynnddi yn y blynyddoedd diwethaf, pan oedd yn gwneud colled fawr. Rhaid inni fod yn fwy hyblyg eto o ran y modd yr ydym yn rheoli Parcelforce a gwaith y gweithwyr yn y busnes hwnnw, ond rhoddwyd hwb mawr i hynny gan y fargen sydd wedi'i tharo'n ddiweddar iawn gydag Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu, ynghylch y dull o reoli'r llwyth gwaith yn Parcelforce. Y newyddion da o du Parcelforce yw bod y lefelau gwasanaeth yn y busnes hwnnw ar eu huchaf erioed. Ef yw'r gorau un yn y diwydiant o ran ansawdd ei wasanaeth, ac felly y bu drwy gydol y flwyddyn hon. Mae hynny'n bwysig iawn pan fo llawer o ddewis ar gael i gwsmeriaid—rhaid cynnig lefel gwasanaeth o'r fath.

Pa gynnydd a wnaethom hyd at y chwarter olaf? Ynghylch peri i'r Post Brenhinol fod yn lle gwell i weithio, cafwyd peth cydnabyddiaeth allanol i hynny'n ddiweddar. Yn yr asesiad o amrywiaeth yn ein busnes eleni gan Race for Opportunity, Grwp y Post Brenhinol a gafodd y nifer mwyaf o bleidleisiau fel y cwmni sydd wedi gwella fwyaf yn ei sector. Mae hynny o bwys aruthrol i ni gan fod amrywiaeth yn faes lle'r ydym yn profi anawsterau, wrth gwrs. Gwelsoch adroddiadau am fwlio, aflonyddu, ac arferion eraill nad oes lle iddynt mewn diwydiant modern ym Mhrydain. Rhaid i ni a'r undeb gydweithio i ddileu hynny. Mae'n braf cael rhywfaint o gydnabyddiaeth allanol yn y maes hwnnw, ond mae gennym lawer i'w wneud eto. Rhaid inni wneud mwy o lawer yn y pen hwnnw.

Mae colledion Grwp y Post Brenhinol wedi gostwng o £1 filiwn bob diwrnod gwaith yn 2002 fel y disgwylir y bydd y grwp yn gwneud elw—a phopeth arall yn gyfartal—o tua £400 miliwn fis Mawrth nesaf. Mae hynny'n gryn newid o ran y modd yr ydym wedi rheoli ein costau a'r modd yr ydym yn rhedeg ein busnes. Collwyd llai o ddyddiau oherwydd gweithredu diwydiannol ac, a ninnau wedi bod yn waethaf mewn diwydiant ym Mhrydain rai blynyddoedd yn ôl, yr ydym bellach ymysg y goreuon. Dywedodd Ken fod heddwch wedi cychwyn, ac yr wyf yn falch o ategu hynny. Yn sicr, yn y parthau hyn, mae ein perthynas â'n hundebau'n fwy cynhwysol a chynhyrchiol o lawer nag y bu o fewn cof, ac mae hynny'n newydd da. Er hynny, bu'n rhaid inni wneud rhai newidiadau poenus, a olygodd ostwng nifer y swyddi, ac yr ydym yn falch o ddweud ein bod wedi gallu gwneud hynny'n gyfan gwbl drwy ddiswyddo gwirfoddol a lleihad naturiol yn hytrach na gorfod troi at ddulliau gorfodol o unrhyw fath. Ynghylch buddsoddi diweddar, cyfeiriodd Ken yn ei anerchiad at faterion sy'n ymwneud â buddsoddi yng Nghymru, yn gyffredinol. Cytunaf â llawer o'r hyn a ddywed Ken, a gwn fod Gareth o'r un farn hefyd. Gwnaethom rai newidiadau'n ddiweddar: ymrwymwyd i fuddsoddi £200,000 yng Nghaerdydd, yn yr ardal ddosbarthu, fel y gall cerbydau mwy ddod i mewn i'r swyddfeydd yn awr, ac mae hynny'n beth da o ran gallu denu post ychwanegol. Mae cais yng Nghaerdydd, er na chytunwyd arno, i wario £300,000 i gael mwy o awtomeiddio. Ni allwn gadarnhau y gwneir hynny, yn sicr, ond gwnaed y cais, a dywedir wrthym y penderfynir ar hynny ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, yn ôl pob tebyg. Mae newydd da hefyd am Abertawe, ac yr ydym wedi gallu gwneud newidiadau yno, nid yn unig i'r adeiladau i gartrefu ein gweithrediad dosbarthu mewn adeilad cyfagos, gan roi inni well amodau gweithio ar gyfer ein gweithwyr a mwy o le i gynnwys llwythi post mwy, ond hefyd drwy wario tua £250,000 ar hynny ac ar fwy o awtomeiddio yn yr ardal honno. Mae hynny'n gryn newid, ac yr wyf yn sicr bod croeso iddo yn yr ardal honno.

Byddwch wedi darllen yn ddiweddar ein bod wedi cyhoeddi y bydd swyddfa ddsbarthu newydd, i wasanaethu ardaloedd Bro Morgannwg, y Bont-faen a Llanilltud Fawr, ar gost o tua £400,000. Hefyd, buom yn brysur dros yr haf yn troi gweithwyr ar gontract dros dro sy'n gweithio i'r busnes yn rhai sydd ar gontract rhan amser a llawn amser parhaol, ac mae hynny'n bwysig iawn gan fod arnom angen rhai sydd wedi ymrwymo i'r busnes ac yn teimlo bod ganddynt ran ynddo a bod eu cyfraniad yn cael ei werthfawrogi gan y busnes lle y maent yn gweithio. Buom hefyd yn llenwi swyddi gwag ledled Cymru ac yr ydym wedi llenwi ychydig yn fwy na 100 o swyddi gwag dros yr haf. Cymer ychydig yn fwy o amser i lenwi swyddi'n awr oherwydd yr holl archwilio a gwirio y mae'n rhaid inni ei wneud, ond er hynny, yr ydym wedi cychwyn y broses honno, ac mae hynny'n bwysig.

Ynghylch y flaenoriaeth a roddir i'r busnes at y dyfodol, mae'n amlwg bod ansawdd y gwasanaeth yn aruthrol o bwysig i'r busnes. Rhaid inni wella'r perfformiad a rown i'n cwsmeriaid o ddydd i ddydd, ac nid cwsmeriaid busnes yn unig, ond ein holl gwsmeriaid, a hynny'n gwbl syml am y gwyddom, os bydd ymgynghoriad presennol y rheoleiddiwr yn dwyn ffrwyth, ei bod yn ddigon posibl y bydd y rhwystrau i gystadlu yn y farchnad post yn cael eu dileu o Ionawr 2006. Gan hynny, rhaid inni gael trefn ar ein pethau—yn niffyg ymadrodd gwell—er mwyn darparu gwasanaeth da fel y bydd pobl yn dod atom am eu bod yn dymuno gwneud, nid am eu bod yn gorfod gwneud, gan eu bod yn cael bargaen dda a gwerth am arian ac am eu bod yn ymddiried yn y gwasanaeth. Bu'r gwanwyn a'r haf yn gyfnod anodd i ni. Bu llawer o gyhoeddusrwydd anffafriol, a'r rhan fwyaf ohono'n haeddiannol gan nad ydym wedi darparu'r gwasanaeth fel yr oeddem wedi honni y gwnaem. Er hynny, mae pethau wedi gwella rhwng y chwarter cyntaf a'r ail: gwelsom welliant pendant yn ansawdd y gwasanaeth, a chyhoeddir y canlyniadau ym mis Tachwedd i ategu hynny, ond mae llawer i'w wneud cyn i'r farchnad agor yn 2006.

Mae Parcellforce yn gweithio'n dda, mae'r gwaith o'i ad-drefnu'n mynd rhagddo'n brydlon ac mae wedi gwneud cytundeb newydd â'r undeb ar gyfer dull gwahanol o weithio, a dymunwn yn dda i'r cwmni gan obeithio y daw hynny â'r llwyddiant y mae ar y cwmni ei angen er mwyn cael sail ariannol gadarnach. Yn Swyddfa'r Post, yr ydym wedi dechrau gwaith rhagbrofol, y cyfeiriodd y Gweinidog ato, yma yng Nghymru, i ystyried y modd y gallwn ymdrin â'r gwasanaethau yn y rhwydwaith gwledig, gan fod hynny'n fater o bwys aruthrol o gofio bod tri chwarter ein swyddfeydd yng Nghymru yn rhan o'r rhwydwaith hwnnw. Rhaid inni hefyd geisio gweithio mewn partneriaeth, a chredaf ein bod wedi sôn am hynny yn y pwyllgor hefyd. Rhaid inni ganfod dulliau o weithio gyda chyrrff eraill sy'n cael bywyd yr un mor anodd mewn ardaloedd gwledig fel y gallwn ddarparu gwasanaeth cadarnach gyda nifer mawr o bwyntiau mynediad. Mae gwahanol ddewisiadau ynghylch hynny, a rhaid inni eu hystyried a bwrw ymlaen â hwy.

Yn olaf, mae gwir angen i Swyddfa'r Post Cyf sicrhau llwyddiant y dewis o gynnyrch y mae'n ei gyflwyno i'r farchnad yn awr—ac maent yn gwbl hanfodol gan na allwn ddibynnu ar y math o fusnes traddodiadol sydd gennym sy'n gysylltiedig â Llywodraeth oherwydd y newidiadau—a rhaid inni roi gwybod i bobl amdanynt, gan na phrynant gynnyrch os na wyddant amdanynt. Rhaid inni ehangu hynny i gynnwys pobl iau a myfyrwyr yn achos rhai o'n gwasanaethau ariannol hefyd.

Gyda golwg ar y grwp cyfan, yr ydym wedi lleihau ein costau cyffredinol gan mwyaf mewn meysydd gwaith mylol, ac wedi sicrhau bod y busnesau llythyrau a swyddfeydd post wedi cyflawni'r hyn a fwriadent erbyn diwedd y flwyddyn. Dyna'r wybodaeth ddiweddaraf gennyf fi am y grwp, a gwn y bydd Dave yn dweud ychydig yn fwy am swyddfeydd post.

Mr Barrett: Bore da, bawb. Dyma'r diweddaraf am ein sefyllfa yn Swyddfa'r Post Cyf mewn cysylltiad â Chymru. Ynghylch rhaglen cau'r rhwydwaith trefol, yr ydym yn y cyfnod olaf ohoni'n awr a cheir ymgynghori cyhoeddus ar hyn o bryd ar y cynlluniau ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg, er bod gennym gynigion i gau 13 cangen bellach. Yr ydym eisoes wedi cau 97 o ganghennau yng Nghymru ers dechrau'r rhaglen, 18 mis yn ôl, ac yr ydym wedi cyhoeddi y bydd 16 arall yn cau. Nid yw hynny wedi digwydd eto; bydd yn digwydd yn yr wythnosau nesaf. Pan gychwynasom y rhaglen hon, yr oedd 440 o swyddfeydd post trefol yng Nghymru. Gan gymryd er mwyn dadl y caewn bob un o'r rhai a gyhoeddasom yng Nghaerdydd a'r Fro—mae hynny'n dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus—byddwn wedi lleihau'r rhwydwaith mewn ardaloedd trefol o 126 o ganghennau, ac o ystyried hynny yng ngoleuni'r hyn a ragwelsom ar ddechrau'r rhaglen gyfan, pan ddywedasom y byddem yn debygol o gau rhwng 100 a 150, mae hynny'n eithaf agos at yr hyn a ddisgwyliasom. Mae'r rhwydwaith gwledig yn fwy o lawer na'r rhwydwaith trefol yng Nghymru, ac yr wyf yn siwr y gwyddoch ei fod yn cynnwys tua 930 o ganghennau ar hyn o bryd. Mae'n amlwg y bydd y niferoedd hynny'n amrywio o bryd i'w gilydd, yn ôl nifer y rhai a gaiff eu cau dros dro, eu hailagor ac yn y blaen, ond dyna ei faint yn fras. Felly, yn y pen draw, bydd nifer y canghennau gwledig yng Nghymru'n dair gwaith yn fwy na nifer y rhai trefol.

Yn ogystal â hynny, yr ydym wedi buddsoddi £0.5 miliwn yn y rhwydwaith trefol drwy'r gronfa buddsoddi ar gyfer swyddfeydd post, a sefydlwyd i ariannu swyddfeydd a fydd yn weddill ar ôl cwblhau'r rhaglen cau, ac fel yr ydych wedi dweud yn barod, cafwyd £4.1 miliwn gan Lywodraeth y Cynulliad sy'n cael ei fuddsoddi mewn canghennau gwledig a threfol. Clywsom hefyd fod taliad rhwydwaith cymdeithasol gwledig Llywodraeth San Steffan wedi'i ymestyn am ddwy flynedd pellach, ar gost o £300 miliwn i gyd o 2006. Felly, mae hynny wedi diogelu'r rhwydwaith gwledig rhag newid sylweddol am ddwy flynedd pellach hyd at 2008, ac mae'r gyfradd cau'r swyddfeydd post gwledig wedi sefydlogi beth bynnag. Yr ydym yn ymgymryd â rhywfaint o weithgarwch rhagbrofol yn awr, y credaf fod Stuart newydd gyfeirio ato. Yn ein hachos ni, mae arbrawf yn mynd rhagddo yn Lawrenny yn sir Benfro i weld a allwn newid trefniadau a darparu gwell gwasanaeth i'r cyhoedd drwy helpu i ddod â hwy mewn bws i'w swyddfa bost agosaf, sef yr un yn Lawrenny. Rhoddir prawf ar gynlluniau eraill o gwmpas y wlad i weld a allant wneud gwahaniaeth i ddyfodol y rhwydwaith gwledig.

Yn ddiweddar, cyhoeddasom ein bod yn newid y brif swyddfa bost yn Hwlfordd, sy'n cael ei rheoli'n uniongyrchol, fel y caiff ei rhedeg o dan fasnachfaint, a disgwylir i hynny ddigwydd fis Ebrill nesaf. Dylwn ddweud hefyd fod rhaglen ad-drefnu'r rhwydwaith yn ymwneud â mwy na chau a lleihau gwasanaethau; mae hefyd yn cynnwys ymestyn ein dewis o gynnyrch. Fel y dywedodd Stuart, yr amcan wrth wneud hyn yw llenwi'r bwch a adewir pan ddiflanna busnes budd-daliadau, sef erbyn y gwanwyn nesaf, ac felly yr ydym yn lansio dewis helaeth o gynnyrch ariannol mewn menter ar y cyd â'r Bank of Ireland. Felly, ar wahân i ehangu ein gallu ar gyfer bancio personol ar gyfer rhai sydd am ddefnyddio swyddfeydd post i godi arian yn rhad ac am ddim—gwasanaeth awtomataidd ydyw, sydd ar gael yn rhad ac am ddim i gwsmeriaid—yr ydym eisoes wedi cyhoeddi bod benthyciadau personol ar gael o'r swyddfa bost, yn ogystal ag yswiriant car, ac yr ydym ar fin cyhoeddi y darperir yswiriant ar gyfer y cartref. Yr ydym hefyd ar fin lansio bondiau ecwiti gwarantedig a bond twf gwarantedig ac arno frand Swyddfa'r Post, a cheir datblygiadau pellach y flwyddyn nesaf, gan gynnwys cerdyn credyd Swyddfa'r Post, yn ôl pob tebyg, a gwasanaethau ariannol pellach. Amcan pob un o'r rhain yw cynyddu incwm is-bostfeistri a'r busnes ei hun yn gyffredinol. Felly, rhaid inni fod yn gadarnhaol am bethau, yn ogystal ag ystyried y ffaith ein bod yn gorfod cwtogi ar y rhwydwaith gan nad oes digon o fusnes i gynnal y nifer o

ganhennau a geid o'r blaen.

[5] **Janice Gregory:** Diolch i chi, Dave. Eifion, a oes gennych adroddiad am y datblygiadau diweddaraf, os gwelwch yn dda?

Mr Pritchard: Ailadroddaf yn fyr yr hyn a ddywedodd Dave eisoes. Mae rhywfaint o newyddion da o'r rhaglen ad-drefnu drefol ddigalon hon. Yr ydym wedi llwyddo i achub—gallaf ddefnyddio'r gair hwnnw'n ystyriol—rhyw 12 swyddfa bost yng Nghymru, sef ychydig yn fwy na 10 y cant. Mae hynny ychydig yn well nag yng ngweddill y Deyrnas Unedig, ond dim ond o drwch blewyn. Wrth gwrs, mae newydd da arall: buom wrthi'n gwneud gwelliannau i'r swyddfeydd post sy'n weddill, sef tua 340 o ganghennau, a'r agwedd gadarnhaol ar hynny yw y dylai gynnig dyfodol tymor hir dichonadwy i'r swyddfeydd post hynny sy'n weddill. Er hynny, mae un nodyn o rybudd—ac ni chyfeiriaf at y swyddfa bost dan sylw—ond yr ydym eisoes wedi cael gwybod bod maint y gefnogaeth leol i un swyddfa bost, a achubwyd rhag ei chau, yn gostwng, ac ni fyddwn am weld Golwg ar Bost Cymru yn gweithio'n ofer, nac yn wir am weld cronfa'r Cynulliad yn gweithredu'n ofer. Os na cheir cefnogaeth leol a sylfaen cwsmeriaid, mae'n wastraff amser. Rhaid i bobl ddefnyddio eu swyddfeydd post lleol os ydynt am iddynt barhau yn y dyfodol. Er hynny, o leiaf yr ydym wedi llwyddo i gael tynnu 12 o gynigion yn ôl hyd yma.

Mae'r mater a godais gyda chi o'r blaen am y diffiniad o swyddfeydd post gwledig a threfol yn dal i beri pryder, ond nid yw hynny'n berthnasol bellach gan ein bod wedi cyrraedd y gyfran olaf, sef Caerdydd a'r Fro, ac nid yw'r broblem honno'n codi yno beth bynnag. Ynghylch y rhwydwaith gwledig, yr ydym wrth ein bodd â'r cyhoeddiad a wnaed ar ariannu, wrth gwrs. Fel y dywedais o'r blaen wrth y Gweinidog mewn cyfarfodydd blaenorol, yr oeddem yn falch iawn o adrodd i'n cyngor cenedlaethol mai Cymru oedd y Llywodraeth ddatganoledig gyntaf i fwrw ymlaen â'r gronfa datblygu swyddfeydd post. Mae hynny'n galonogol iawn ac yr wyf yn siwr y byddai'r sefyllfa o ran cau swyddfeydd post gwledig yn waeth o lawer hebdi, er nad yw'n arbennig o dda, fel y mae'n digwydd.

Gyda golwg ar ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol, mae hynny'n peri gofid mawr i ni a, ddoe ddiwethaf, cyfarfûm â Paul Kelly, sy'n gyfrifol am ranbarth y De, gyda rhai aelodau o'r pwyllgor. Gwnaf yr un peth ar gyfer y Gogledd a'r gororau y mis nesaf. Fe'n sicrhawyd bod y Post Brenhinol wrthi'n ceisio gwella'r sefyllfa. Yr ydym yn bryderus am ddau beth: dosbarthu'r post y diwrnod wedyn—sydd heb fod cystal â'r gofyn—ac amseroedd dosbarthu, sy'n arbennig o berthnasol yng Nghymru gan fod gennym gynifer o fusnesau bach a chanolig eu maint. Nid yw pawb yn defnyddio'r e-bost, ac mae'r busnesau hynny'n dal i ddibynnu ar y post i gael eu sieciau a'u harchebion mewn pryd ac i ddefnyddio eu gweithlu yn y modd mwyaf manteisiol. Felly, cyfarfuom ddoe, a chawsom sicrwydd. Nid fy lle i yw dweud beth fydd y Post Brenhinol am ei ddweud wrthyf, ond bydd cynnydd yn nifer y gweithlu, a chredaf ei bod yn hen bryd i hynny ddigwydd oherwydd, yn sicr, rhaid rhoi sylw ar frys i ansawdd y gwasanaeth. Sylweddolwn hynny gan ein bod yn trafod mwy a mwy o gwynion yn rheolaidd bob dydd.

Yn olaf, ynghylch pwnc pensiynau, ni wyddwn y byddai rhywun o'r Adran Gwaith a Phensiynau yma y bore yma. Fodd bynnag, yr ydym wedi cael tystiolaeth anecdotaidd sydd bellach wedi'i chadarnhau sy'n awgrymu bod darpar hawlwyr budd-daliadau, neu rai sy'n eu derbyn eisoes, yn cael eu ffonio gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, gellir cymryd, ac yn cael eu hannog, a dweud y lleiaf, i droi oddi wrth daliadau yn y swyddfa bost. Mae gennym dystiolaeth i'r perwyl hwnnw, a gyflwynasom i'n corff cenedlaethol ac yr wyf yn gobeithio y bydd yn dilyn hynny. Ni allaf gadarnhau hynny â data ar hyn o bryd, ond yr ydym yn bryderus iawn am hynny.

Pan gyfarfuom yn ddiweddar â rhai o'ch aelodau pwyllgor, gofynnwyd imi godi pwnc arall y tro nesaf y cyfarfyddem—maddeuwch i mi os nad wyf mewn trefn wrth wneud hynny—a hwnnw oedd y stamp Cymreig parhaol. Ceir stamp Cymreig parhaol, a dylai fod ar gael ym mhob swyddfa bost. Nid yw ar gael mewn llyfrau neu ar strivedi hunanlynol. Buom yn ymgyrchu ar hyn ers amser maith. Nid yw'n bwnc cyfyng ei ddiddordeb, gan ei fod yn sicr o fod o ddiddordeb i Gymru gyfan, o safbwynt masnach, diwydiant a thwristiaeth, gael y stamp Cymreig hwnnw mewn llyfrau ac ar strivedi hunanlynol a'i gael fel ei fod ar gael ar unwaith yn ôl y galw mewn swyddfeydd post. Awgrymaf ei fod yn bwysig i Gymru gyfan. Gwnaethom ein gorau glas i beri i'r Post Brenhinol newid ei feddwl ar y mater hwn. Ni wnaiff hynny a gofynnaf am gefnogaeth y pwyllgor hwn, wedi ichi gael amser i ystyried y mater, ac am ichi ymuno â mi i geisio cyflawni rhywbeth ar hyn. Dyna fy adroddiad.

[6] **Janice Gregory:** Diolch, Eifion. Yr oeddech allan o drefn, wrth gwrs, fel y gwyddoch. Er hynny, mae'n fater pwysig a gobeithiaf fod Swyddfa'r Post wedi clywed yr hyn a ddywedasoch a byddwn yn fodlon ysgrifennu llythyr swyddogol, os yw aelodau'n dymuno hynny, fel Cadeirydd y pwyllgor, at Swyddfa'r Post i gefnogi Golwg ar y Post.

Symudwn ymlaen yn awr at gwestiynau. Fel y dywedais, cawsom gyflwyniadau ysgrifenedig gan yr Adran Masnach a Diwydiant a'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Er gwybodaeth i'n hymwelwyr, mae clustffonau ar gyfer cyfieithu ar y pryd, gan fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg; mae'r clustffonau'n ddefnyddiol hefyd i chwyddo'r sain, os ydych yn ei chael yn anodd clywed. Rhodri Glyn fydd yn gofyn y cwestiwn cyntaf.

[7] **Rhodri Glyn Thomas:** Thank you very much, Chair. I have several points. On Eifion's final point, if the sounds made by committee members are any indication, I think that we agree that the Chair should write formally to the Royal Mail on the matter. On Eifion's penultimate point, I think that we should have a full explanation of that.

Gwnaf y pwynt hwn wrth ddisgwyl i'r cyfieithiad ddod drwodd, sef bod rhaid inni gael eglurhad llawn ar y pwynt a wnaeth Eifion am unrhyw—

Is the translation equipment working?

We need a full explanation of Eifion's point on whether any pressure has been placed on the public not to use post offices. We must reconsider this point. Until Post Office Ltd has a system that corresponds to that of a bank, in respect of opening accounts, post offices will not be viable. The process of opening accounts in post offices is much more difficult than that at a bank. People will use the easy option.

Regarding sorting offices, I take on board the points that Ken raised—*[Interruption.]*

A ydym yn brin o offer cyfieithu? Nid oes ar Eifion ei angen, felly mae gennym ddigon. Y pwynt ynghylch swyddfeydd didoli—

I am now getting confused. The point about sorting offices is that it is vital to welcome the £200,000 investment in Cardiff, and the possibility of £300,000, but we are talking about comparatively small amounts, if we are talking of modernising the system. I would hope that there would be more substantial investment than that. I hope that the Royal Mail plc will respond positively to the trust that the unions have shown in the organisation. Co-operation comes from both sides. I greatly hope that those centres get the investment that they need.

In respect of mail sorted in England, when addresses are written in Welsh and Welsh placenames are used, or where there is no post code, are you entirely certain that centres in England can deal with those issues?

In terms of sorting offices—I am aware of the time, Chair, but I have a number of points to raise—I welcome the investment in Swansea and Cardiff. However, I hope that centres in my constituency, such as Ammanford—where I hope that there will be investment—Llandeilo and Llandovery, which may be the smallest in Wales, but which is vital to the service in Carmarthen East and Dinefwr, will also be supported and not forgotten in this process.

With regard to the urban post office closure programme, it is a strange way of wording a consultation process. It is too late now, but is this a consultation on closures? It is not much of a consultation if we have a closure programme.

You have reviewed these services. Have you reviewed the situation with the 97 urban branches that have been closed? Have you gone back to the public and asked them whether the service now provided corresponds to that which was provided previously, or are you just consulting on the closures? Should you not review that decision? You have closed 97 branches. You now have the opportunity to review those closures.

I have several other questions but in order to be fair to all, I shall close.

[8] **Janice Gregory:** Gofynnaf i'r holl aelodau ofyn eu cwestiynau, ac wedyn cynhaliwn sesiwn atebion cyflawn ar y diwedd. Pe gwnaem hynny'n unigol, mae arnaf ofn y byddem yma tan bump o'r gloch, gan fod aelodau'n dymuno codi cynifer o faterion.

[9] **Peter Black:** Croesawaf y ffaith bod gennym swyddogion yma o'r Adran Masnach a Diwydiant a'r Adran Gwaith a Phensiynau—

[10] **Janice Gregory:** Yn wir.

[11] **Peter Black:** Credaf fod y pwyllgor hwn wedi cael sawl sesiwn gyda gwahanol weithredwyr yn y gorffennol—Swyddfa'r Post Cyf, yr undebau a Golwg ar y Post—a bu inni drafod llawer o'r materion hyn o'r blaen. Mae aelodau wedi teimlo'n rhwystredig gan fod llawer o'r materion hyn yn rhai i'r DU gyfan. Ni chawsom gyfle i drafod hynny.

Mae'n bwysig bod swyddogion yr Adran Masnach a Diwydiant a'r Adran Gwaith a Phensiynau, sydd yma heddiw, yn deall maint y dicter a geir yng Nghymru ynghylch y rhaglen cau swyddfeydd post, a'r rhesymau dros ei chyflawni. Teimlais yn rhwystredig gan fod Swyddfa'r Post wedi bod yma gyda ni, a ninnau wedi llawn ddeall yr amgylchiadau y mae wedi gorfod gweithio odanynt, o ran maint y busnes a gymerir oddi wrthi, a'r rhesymau y mae wedi gorfod cymryd rhai o'r camau oherwydd y mater hwnnw. Mae llawer mewn cymunedau trefol a gwledig sy'n bryderus am fod y busnes pensiynau a budd-daliadau'n cael ei gymryd oddi wrth y swyddfeydd post a bod hynny, i bob pwrpas, wedi arwain at gau bron 126 ohonynt mewn ardaloedd trefol, a hynny'n aml yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae llawer o bobl wedi'u gadael heb wasanaethau ac ni allant gael y mathau o wasanaethau y maent wedi arfer â hwy. Mae dicter mawr am hynny, ac yr wyf yn siomedig nad yw'r Gweinidog yma i glywed hyn, gan mai penderfyniadau gwleidyddol oedd y rhain hefyd. Gweision sifil sy'n cynghori Gweinidogion sydd wedyn yn gwneud penderfyniadau.

Yr hyn sy'n peri'r pryder mwyaf i mi a sawl un arall yw cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post. Mae rhai'n credu bod cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post wedi'i danseilio'n fwriadol o'r dechrau. Codwyd rhwystrau rhag gallu cael cyfrif, yr oedd pobl yn galw dros y teleffon ac yn cael eu troi ymaith i bob pwrpas a'u hannog i beidio ag ymgeisio am y cyfrif cerdyn hwn ar bob cyfle. Hynny, yn anad dim arall, sydd wedi gyrru pobl oddi wrth swyddfeydd post ac wedi peri i Swyddfa'r Post golli mwy o fusnes nag y dylasai. Dylasai pobl allu cael cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post a dal i gael gwasanaethau yn y swyddfeydd post lleol, ond maent wedi'u hatal rhag gwneud hynny oherwydd y modd y trefnwyd hyn. Mae hynny, ynddo'i hun, yn peri gofid a dicter mawr i lawer o bobl. Ymddengys i mi mai'r hyn a wynebwn o ran y rhaglen gau hon—oherwydd dyna ydyw—yw bod Swyddfa'r Post yn rhoi ar waith polisi systematig Llywodraeth y DU i leihau'r rhwydwaith trefol. Bu'r polisiâu a ddilynodd yn gyfystyr â hynny. Gobeithiaf y bydd y gweision sifil sydd yma heddiw'n gallu rhoi gwybod am hynny i'r Gweinidog ac egluro iddi mor ddig yr ydym ynghylch y mater hwn.

[12] **Catherine Thomas:** Mae llawer o bethau y carwn eu dweud heddiw, ond, am fod amser yn brin, cadwaf at rai pwyntiau allweddol. Mae llawer o bethau a ddywedais yn y ddau gyfarfod blaenorol a gawsom gyda chynrychiolwyr Swyddfa'r Post Cyf, Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu a Golwg ar y Post y dymunaf eu hailddatgan. Carwn hefyd ategu'r hyn a ddywedwyd eisoes gan Rhodri Glyn a Peter a thynnu sylw eto at y dicter a deimlir yng Nghymru gan ein hetholwyr a'r cymunedau a gynrychiolwn. Yr wyf wedi sôn yn y gorffennol am y rhwystredigaeth a'r anfodlonrwydd a deimlaf ynghylch rhaglen ad-drefnu'r rhwydwaith, a'r ffaith na chredaf fod ymgynghori dilys wedi bod. Yn fy marn i, nid oedd yn fawr mwy nag ymarferiad cysylltiadau cyhoeddus, oherwydd, fel y dywedodd Rhodri Glyn, gwnaed penderfyniadau, aethom drwy'r broses, ond nid oedd dim a newidiai'r canlyniad yr oeddech yn ei ddymuno. Teimlaf yn gryf am hyn, gan fod fy etholwyr yn dal i ddiodef oherwydd cau llawer o'r swyddfeydd post hyn. Mae llawer o bobl hyn, yn enwedig, neu rai sydd ag anabledd, wedi mynd yn gaeth bellach i'w cartrefi. Dyna ganlyniad y rhaglen ad-drefnu.

Un o'r prif faterion y carwn ganolbwyntio arno yw'r pryder mawr ynghylch hyrwyddo cyfrifon banc yn hytrach na chyfrifon cerdyn Swyddfa'r Post. Ceir tystiolaeth ddiwrthbrawf sy'n peri pryder i mi am ymddygiad yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae is-bostfeistri ac is-bostfeistresi di-rif yn fy etholaeth wedi cysylltu â mi, ac, yn y flwyddyn a aeth heibio, euthum ati i drefnu dau gyfarfod y bu nifer dda yn bresennol ynddynt. Daeth y Gweinidog i un ohonynt, a gwahoddais rai mewn is-swyddfeydd post yn fy etholaeth i ddod yno a rhannu'r pryderon sydd ganddynt o ddydd i ddydd. Maent hwy, ac etholwyr di-rif, wedi bod mewn cysylltiad, ac wedi dweud wrthyf eu bod yn teimlo iddynt gael eu bwlio a'u haflonyddu gan y galwadau ffôn a gawsant oddi wrth weithwyr yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae hyn yn peri pryder mawr i mi, ac nid wyf yn ei drin yn ysgafn. Mae gennyf lythyr, a anfonwyd ataf yn ddiweddar gan is-bostfeistr, sy'n dweud

Yr ydym yn cael ein poeni'n fawr gan y camau a gymerir gan y gwahanol asiantaethau budd-daliadau. Maent yn ffonio'r rhai sy'n cael budd-dal i drefnu i'w dalu'n uniongyrchol, ac maent yn dwyn pwysau arnynt i beidio â'i godi mewn swyddfa bost. Mae eu tactegau'n codi ofn ac yn peri i rai etholwyr, rhai hyn fel arfer, fod yn eu dagrau.

Nid yw ymddygiad o'r fath yn dderbyniol, ac mae hyn yn digwydd yn awr. Mae gennyf ddigon o dystiolaeth y gallwn ei rhoi i chi, yn enwedig ar ffurf ysgrifenedig, a gefais gan fy etholwyr. Yr wyf hefyd yn bryderus ynghylch yr hysbysebion a welais mewn gwahanol gyhoeddiadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, lle, eto, mae cyfrifon banc yn cael eu gwthio ond nid cyfrifon cerdyn Swyddfa'r Post. Pryderaf fod fy etholwyr yn dioddef oherwydd yr ymddygiad hwn, a'i fod hefyd yn tansilio bodolaeth a hyfywedd swyddfeydd post ledled Cymru.

Gyda golwg ar y broses ymgeisio am gyfrifon cerdyn Swyddfa'r Post, mae hon eto'n rhy gymhleth o lawer a disgwylir i bobl fynd drwy ormod o lawer o gamau. Mae bron fel petai'n fodd i ddigaloni pobl pan ydynt yn mynd ati i ymgeisio. Pryderaf ynghylch y system gyfrifiadurol, sy'n aml yn gwrthod llawer o'r ffurflenni a anfonir gan fod rhywun—a rhywun hyn ydyw fel arfer eto—yn dioddef gan arthritis ac yn methu ag ysgrifennu o fewn ymylon y ffurflenni hyn fel y bo'n ofynnol. Os aiff y llawysgrifen dros yr ymylon, gwrthodir y ffurflen. Gwn fod hyn wedi digwydd, nid unwaith neu ddwy, ond i un person ar bedwar neu bum achlysur, ac mae hynny'n eu digaloni yn y diwedd ac nid ydynt yn parhau i geisio cael cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post. Nid yw hynny'n dderbyniol.

Yr wyf hefyd yn bryderus o glywed bod y system gyfrifiadurol dan sylw wedi'i dyfeisio a'i chynnal gan EDS, cwmni technoleg gwybodaeth Americanaidd a gafodd fai am broblemau wrth brosesu hawliadau i'r asiantaeth cynnal plant, credydau treth plant a chredydau treth i deuluoedd sy'n gweithio a'r system hunanasesu treth ar lein. Pam y defnyddiwyd y system gyfrifiadurol hon, sydd â hanes mor wael, os wyf yn gywir, yn yr achos hwn?

Gadawaf rai pwyntiau gan fod amser yn brin, ond gadewch inni ystyried dystiolaeth sy'n dangos dull gweithredu'r Adran Gwaith a Phensiynau wrth hyrwyddo cyfrifon banc yn hytrach na chyfrifon cerdyn Swyddfa'r Post. Mae dogfen, a ddatgelwyd gryn amser yn ôl, yn dweud bod, rhaid inni dalu i'r rhan fwyaf o'r cwsmeriaid hyn drwy gyfrifon banc sy'n costio 1 geiniog, yn hytrach na thrwy gyfrifon cerdyn Swyddfa'r Post, sy'n costio 30 gwaith yn fwy. Dylech geisio peri i naw o bob 10 o'r hawlwyd newydd ddefnyddio cyfrifon banc a thalu i gyfran fach ohonynt drwy gyfrifon cerdyn Swyddfa'r Post.

Wedyn, dywed y ddogfen,

pwysleisiwch nad cyfrifon cerdyn Swyddfa'r Post yw'r dewis gorau i gwsmeriaid, yn ôl pob tebyg.

Dogfen o eiddo'r Adran Gwaith a Phensiynau a ddatgelwyd yw hon. Mae'n amlwg bod y pwyntiau a godais yn peri pryder mawr i bob un ohonom, ac yr wyf am bwysleisio hynny heddiw. Yr wyf am gael atebion i'r cwestiynau yr wyf fi a chyd-aelodau wedi eu gofyn i chi gan ein bod wedi disgwyl cryn amser bellach am yr atebion hyn. Gwn y bydd fy etholwyr, a rhai swyddfeydd post yn fy etholaeth, yn disgwyl am yr ymatebion hynny. Carwn wybod beth yr ydych yn ei wneud i ymdrin â'r diffyg cydbwysedd a geir wrth hyrwyddo cyfrifon banc yn hytrach na chyfrifon cerdyn Swyddfa'r Post. A wnewch roi gwybodaeth i ni am y nifer o gyfrifon cerdyn Swyddfa'r Post sydd wedi'u hagor o'u cymharu â chyfrifon banc? Hefyd, carwn gael rhagor o wybodaeth am y taliad awtomataidd, a allai fod yn debyg i'r trefniant ar gyfer llyfrau pensiwn. Bydd rhai sy'n esempt am sawl rheswm yn cael defnyddio'r dull modern hwn, a chael cadw at yr hen daliadau, yr wyf yn deall. Deallaf ein bod yn ceisio cael gwybodaeth am hynny, ond na ellir ei chael. Gallwn fynd ymlaen yn hwy o lawer, ond yr wyf am derfynu'n awr er mwyn aelodau eraill.

[13] **William Graham:** Ategap y sylwadau a wnaeth aelodau eraill. Cadwaf at un pwynt ynghylch y dosbarthu i fusnesau yng nghanol dinasoedd ac amser y dosbarthiadau. Oni bai fod modd ymdrin â hynny, bydd yn anobeithiol ar fusnesau os ydynt yn wynebu cystadleuaeth. Mae'n broblem ddifrifol i fusnesau bach, ac, os na chânt y post cyn 9 a.m., mae'n cael effaith fawr arnynt.

[14] **Sandy Mewies:** Cytunaf â phopeth a ddywedodd Catherine, ac nid wyf am ei ailadrodd. Rhannaf y pryder sydd gan William ynghylch amseroedd dosbarthu'r post a'u cysondeb, yn enwedig mewn cysylltiad â busnesau bach. Dymunaf holi cynrychiolwyr Swyddfa'r Post Cyf am y gwelliannau a fu yn y gweithdrefnau ar gyfer trafod cyfrifon cerdyn, gan fod un o'm hetholwyr yn meddu ar chwech o'r cardiau hyn, sawl un ar gyfer y swyddfa bost, ac nid yw'r rhif adnabod personol yn gweithio ar yr un ohonynt. Teimlai'n rhwystredig dros ben am hynny pan ymwelais â hi'n ddiweddar, ac yn ddig gan na all gael ateb ar y rhifau ffôn a ddarparwyd. Gofynnodd i mi at bwy y dylai droi a sut y gellid trafod y broblem. Ni wn beth yw'r datblygiadau diweddaraf, ond pa effaith a gafodd y gweithdrefnau?

Gan droi at yr Adran Masnach a Diwydiant, er fy mod yn croesawu'r cyhoeddiad y bydd trefniadau trosiannol ar waith tan 2008, carwn gael sicrwydd am hyn, gan fod pob swyddfa bost yn fy etholaeth i, sef Delyn, yn rhan o'r rhwydwaith gwledig. Faint o ymdrech a wneir i geisio darparu gwasanaethau gwahanol yn y swyddfeydd post hynny a pheri iddynt fod yn ddichonadwy? Dymunaf weld pwyslais ar yr agwedd gadarnhaol yn hytrach na'r un negyddol, a'n bod yn rhagbrofi ar bob math o fesurau.

Yn achos yr Adran Gwaith a Phensiynau, gobeithiaf y bydd gwersi wedi'u dysgu am yr anawsterau sy'n wynebu cwsmeriaid wrth agor cyfrifon cerdyn Swyddfa'r Post. Credaf y dylem geisio cadw swyddfeydd post, a pheri iddynt fod yn fwy proffidiol efallai—gallaf weld pam y mae'n rhaid i hynny ddigwydd—yn hytrach na'u cau'n fympwyol a pharhau â'r pwyslais negyddol a geir ar hyn o bryd.

[15] **Janice Gregory:** Diolch i chi, Sandy. Leanne?

[16] **Leanne Wood:** Byddaf mor gryno ag y gallaf. Ategap y cwbl y mae'r holl aelodau wedi'i ddweud. Yr hyn sy'n peri pryder i mi yw'r effaith ar rai sy'n agored i niwed, a dymunaf gael gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth. Oherwydd problemau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus, mae pobl yn gorfod mynd yn bellach i gyrraedd swyddfeydd post. A wnaed gwaith i asesu'r effaith ar rai sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus i fynd yn ôl a blaen i'r swyddfa bost agosaf? Er mwyn ailddatgan y pwyntiau a wnaed ynghylch talu budd-daliadau a phensiynau, mae nifer fawr o bobl wedi cysylltu ag un o swyddfeydd lleol Age Concern, a hwythau yn eu dagrau, am eu bod wedi colli rhifau adnabod personol, am na allant gael ateb ar y teleffon ac am na allant gael yr arian y mae arnynt ei angen i fyw arno yr wythnos ddilynol. Mae hyn yn peri gofid mawr i bobl. Er bod cynrychiolwyr yr Adran Gwaith a Phensiynau yma—ac fe'm brawychwyd o glywed y pwynt a wnaeth Catherine am y ddogfen a ddatgelwyd—rhaid inni gydnabod mai penderfyniad gwleidyddol yw hwn. Penderfyniadau gwleidyddol oedd y rhai i gau rhwydwaith y swyddfeydd post a defnyddio banciau a chyfrifon cerdyn Swyddfa'r Post. Derbyniaf y pwyntiau a wnaeth swyddogion yr Adran Gwaith a Phensiynau, ond rhaid inni anfon neges gryf at Patricia Hewitt i ddweud mor anfodlon yr ydym ar y sefyllfa oherwydd, yn y pen draw, fater gwleidyddol ydyw.

[17] **Huw Lewis:** Deil y mater hwn ei ailadrodd, a gobeithiaf y bydd ein ffrindiau o'r Adran Gwaith a Phensiynau'n amyneddgar, gan y buom ninnau'n amyneddgar o ran yr amser yr ydym wedi disgwyl i gael dweud ein barn. Er mwyn rhoi enghraifft bellach o'r modd y mae'r cyfrif cerdyn yn gweithio ar lawr gwlad, mae clwb i rai dros 55 oed mewn pentref yn fy etholaeth wedi treulio llawer o amser ac wedi gwneud ymdrech fawr i drefnu yn erbyn yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae wedi cynnal gwersi ar y modd i lenwi ffurflenni cais ac wedi trefnu i gael pregeth fyr gan y ficer lleol ar y rheswm y dylent ddal ato. Maent yn gwneud hyn am fod y gymuned wedi ymrwymo'n gryf i'r swyddfa bost leol, a fu o dan fygythiad i'w chau ar sawl achlysur. Mae'r gymuned yn trefnu i sicrhau y caiff y swyddfa bost ei defnyddio a'i chadw. Pam y mae'n rhaid iddynt wneud hyn? Pam na allant gael cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post yn yr un modd ag y gallent gael unrhyw gerdyn bancio arall?

Mae'r cwestiwn arall sydd gennyf yn un i swyddogion Swyddfa'r Post Cyf. Ni synnais o glywed y cymerid camau i ystyried cynnig benthyciadau personol a chardiau credyd a gwasanaethau bancio, gan mai hynny ydynt yn y bôn, mewn swyddfeydd post. Fodd bynnag, mae'r cwestiwn sydd gennyf yn cyfeirio at y ffaith bod banciau'r stryd fawr wedi troi cefn bellach, i bob pwrpas, ar lawer o'n cymunedau. Felly, ar yr olwg gyntaf, efallai mai newyddion da yw bod Swyddfa'r Post Cyf yn meddwl am y gwasanaethau hyn. Fodd bynnag, yng ngolwg y ffaith bod banciau'r stryd fawr wedi cael bod hynny'n amhroffidiol ac wedi cynnig dadl busnes dros sgidadlo, ym mha fodd y bydd Swyddfa'r Post Cyf yn wahanol? I'm meddwl i, er mwyn mynd yn ôl at hynny, rhaid inni ddechrau ystyried pwrpas cymdeithasol swyddfeydd post o ran cynnig mynediad da i rai a allai fod ar incwm isel. Rhaid inni ystyried cyfraddau llog synhwyrol, da a pheidio â gweithredu'n union fel y gwnâi banciau'r stryd fawr oherwydd, fel arall, oni bai fod y banciau wedi dweud celwydd wrthym drwy'r cwbl, mae'n sicr o fethu.

[18] **Janice Gregory:** Diolch i chi. Mark?

[19] **Mark Isherwood:** Datganaf fuddiant gan fod fy ngwraig yn rheoli is-swyddfa bost yn y Gogledd. Ategap y sylwadau a wnaeth Eifion. Bûm mewn cyfarfod cyhoeddus a drefnwyd gan Golwg ar y Post, a chredaf ichi gynnal un ers hynny.

Mr Pritchard: Naddo; byddwn yn cynnal un cyn hir.

[20] **Mark Isherwood:** O'r gorau. Yr oedd y cyfarfod hwnnw'n orlawn, ac yr oedd yr adborth a gafwyd o'r llawr yn cyfleu'r union bwyntiau a wneir o gwmpas y bwrdd hwn. Felly, mae'r pryderon yn gyffredin ac yn gryf, yn sicr. Cyfeiriasoch hefyd at eich stampiau post. Codwyd y mater hwnnw gan nifer o bobl busnes yn y cyfarfod, felly mae marchnad ar gyfer hynny hefyd. Wrth gwrs, soniasoch am symud ymlaen i wneud elw o £400 miliwn fis Mawrth nesaf, Stuart. Nid oeddwn ond am gael gwybod pa bryd y bu'r busnes gystal neu'n well na hynny ddiwethaf o ran proffidioldeb a pha bryd y dechreuasoch wneud colled. Soniasoch am symud at ddsbarthiad sengl, a chredaf fod cyfeiriad wedi bod at amseroedd dosbarthu. Gwyddom fod y lefelau gwasanaeth yn amrywiol iawn. Mae rhai'n dda iawn—mae'n dda iawn yn fy ardal i—ond nid yw gystal mewn ardaloedd eraill. Sut yr ydych yn monitro hynny i sicrhau y ceir arferion da yn y rhwydwaith drwyddo draw?

Soniasoch am gael canolfannau post mwy effeithlon. Byddai o ddiddordeb imi gael gwybod beth yn union a olygwch wrth hynny a pha gostau a buddion a allai fod ynglyn â hyn. Byddai o ddiddordeb imi gael gwybod sut y mae cystadlu cynyddol yn ysgogi'ch busnes, yn enwedig yn achos post busnes. Yn fy swydd flaenorol, defnyddiem y system DX, ac mae llawer mwy o ddsbarthwyr yn dod i'r farchnad yn awr.

O ran cynnig mwy o amrywiaeth o gynhyrchion, a minnau wedi gweithio i gymdeithas adeiladu, gwn ein bod wedi cau bron bob un o'n hasiantaethau oherwydd cynnydd mewn rheoleiddio, fel Deddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd 2000, y cod morgeisiau ac yn y blaen. Sut y byddwch yn rheoleiddio'r staff, yn enwedig mewn is-swyddfeydd post, i sicrhau na fyddant yn gwerthu cynhyrchion yn anghyfreithlon neu y tu hwnt i'r lefelau awdurdodi sydd ganddynt? Pa fath o waith a wneir o ran dadansoddi data cwsmeriaid i ganfod yr is-swyddfeydd post a swyddfeydd post hynny na fyddant yn gallu sefyll ar eu traed eu hunain yn fasnachol yn y dyfodol am nad yw'r sylfaen gwsmeriaid leol yn ddigon mawr, fel y gellir cynorthwyo rhwydwaith cymdeithasol ar ôl 2008?

Dywedir wrthym fod llawer o swyddfeydd post yn cau am fod rhai'n ymddeol, ond a gydnabyddwn mai'r rheswm am hynny yw nad oes neb yn dod ymlaen i gymryd drosodd y busnesau hynny gan na chredir y byddant yn gynaliadwy yn y dyfodol?

Yn olaf, er mwyn ategu pwynt a wnaeth Catherine, byddai o ddiddordeb imi wybod pa gyfran o'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau a phensiynau sydd wedi troi at y banc cyffredinol a pha gyfran sydd bellach wedi troi at y cerdyn llithro.

[21] **Janice Gregory:** Diolch i chi, Mark. Weinidog?

[22] **Edwina Hart:** Sylwais pan oeddem yn trafod holl fater cerdyn Swyddfa'r Post nad oedd y swyddogion o'r Adran Gwaith a Phensiynau'n deall yn hollol ein bod wedi cael tystiolaeth gan ein hetholwyr am natur a mathau'r galwadau ffôn y maent yn eu cael. Wrth gwrs, fel ACau, yr ydym yn eithaf agos at ein hetholwyr gan ein bod wedi ein lleoli yng Nghymru. Mae'n berthynas gwbl wahanol i'r un sydd gan ASau gan eu bod yn ymwneud â lefel uwch. Mae cryn nifer o faterion wedi'u codi gyda ni a chawsom gryn lwyth o waith achosion, ond yr wyf yn siwr, pe bai angen, y gallai aelodau roi tystiolaeth i'r Adran Gwaith a Phensiynau am yr hyn y mae pobl yn ei hystyried yn broses dra annheg mewn cysylltiad â chardiau Swyddfa'r Post.

Gyda golwg ar faterion mwy cyffredinol, yr ydym oll yn gwybod y bydd Swyddfa'r Post Cyf yn gorfod wynebu cystadleuaeth yn 2006, pan allai eraill ddechrau dosbarthu'r post a phan allai cwmnïau o'r Almaen neu'r Iseldiroedd, neu ba le bynnag, ddod i mewn. A fyddai wedyn yn cael cystadlu gyda busnesau o'r fath yn Ewrop fel y câi chwarae teg i fentro fel busnes? Ymddiddoraf yn y maes hwnnw mewn cysylltiad â pholisi'r Adran Masnach a Diwydiant. Y prif bwynt y carwn ei gyfleu yw bod Llywodraeth Cynulliad Cymru—a chredaf y gallaf ddweud hyn cyn i swyddogion ymateb—wedi gwneud popeth yn ei gallu i gefnogi gwasanaeth y swyddfeydd post yma oherwydd ein hymrwymiad i gymunedau. Fodd bynnag, wrth wneud hynny, yr ydym hefyd yn cydnabod nad rôl a swyddogaeth i ni yw hyn o reidrydd gan nad yw'r mater hwn wedi'i ddatganoli i ni, ac mae symiau sylweddol o arian yn gysylltiedig â hyn. Os cafodd swyddogion y fantais o gael yr holl bapurau ar gyfer y cyfarfod pwyllgor hwn, gwelant fod rhestr o'r holl swyddfeydd post a gefnogasom wedi'i hatodi; mae'n rhestr eithaf hir o rai mewn ardaloedd gwledig a threfol. Wrth gwrs, os ceir problemau yn y dyfodol o ran cau swyddfeydd post, mae gennyf drefniadau adfachu a ddefnyddiaf yn ôl fy nisgresiwn i adennill arian Llywodraeth Cynulliad Cymru, ond nid yw hynny'n foddhaol, ar un ystyr, gan y byddai rhywun yn hoffi cael rhyw sicrwydd y bydd y swyddfeydd post a ariannwyd yn parhau.

Gan hynny, Gadeirydd, fy unig amcan yn hyn o beth yw dweud bod rhaid inni ddeall beth yn union sy'n digwydd yn achos y cyfrifon cerdyn hyn. Nid wyf yn ymwneud â'r pwyllgor hwn yn unig, gofynnir cwestiynau i mi'n barhaus yn y Cynulliad am y materion hyn, ac mae arnom angen eglurhad am hynny'n benodol. Sylweddolwn fod llawer o'r materion hyn yn rhai gwleidyddol a bod Gweinidogion yn rhoi cyfarwyddiadau ar ddatblygiadau yn y maes hwn. Fodd bynnag, ni sydd yn y rheng flaen o ran y cwestiynau a gawn gan ein hetholwyr ac, wrth gwrs, o ran yr hyn a ofynnir i mi fel Gweinidog drwy'r amser pan af allan i ymweld ag etholaethau, ac i weld is-bostfeistri. Mae rhai o'r hanesion anecdotaidd a gawn ganddynt am y modd y cawsant eu trin yn anhygoel.

[23] **Janice Gregory:** Diolch i chi, Weinidog. Yn awr gwahoddaf y tystion i ymateb. Credaf mai gwir yw dweud bod rhai themâu cyffredin yn codi yn holl gwestiynau'r aelodau. Nid wyf am ofyn ichi roi atebion byr gan y credaf fod aelodau am gael atebion sydd mor llawn ag y bo modd, ond a gaf ofyn ichi ganolbwyntio ar y meysydd y tynnwyd eich sylw atynt yn hytrach na datgan barn am yr holl gwestiynau a gododd? Ai chi sy'n arwain ar hyn, Tony, ynteu Christine?

Mr Kuczys: Byddwn yn falch o ddechrau, os byddai hynny o gymorth, Gadeirydd. Credaf mai'r peth cyntaf y dylid ei ddweud yw mai'r hyn y ceisiodd y Llywodraeth yn San Steffan ei wneud, o'r cychwyn, wrth foderneiddio'r dull o dalu budd-daliadau, oedd ei gwneud yn flaenoriaeth ddiamod i bobl allu cael eu harian yn y swyddfa bost o hyd. Mae hynny'n rhan o'r bwriad ers y dechrau. Mae amryw o ddulliau o gyflawni hynny, a dim ond un ohonynt yw'r cyfrif cerdyn. Felly, yn gyntaf oll, yr oedd sawl banc eisoes wedi gwneud cytundeb masnachol gyda Swyddfa'r Post, sy'n sefyll o hyd, fel bod modd, os ydych yn bancio gydag Alliance & Leicester, y Banc Cydweithredol, Lloyds TSB, Barclays, a sawl banc arall, ichi ddefnyddio'r swyddfa bost— unrhyw swyddfa bost—fel cangen banc i dalu arian i mewn a'i godi. Yr oedd Swyddfa'r Post wedi trefnu hynny ei hun gyda'r banciau hynny, ac mae'n dal i ychwanegu mwy o fanciau at y nifer hwnnw o bryd i'w gilydd.

Yn ail, gwnaeth y Llywodraeth gytundeb gyda'r holl fanciau a Chymdeithas Adeiladu Nationwide fel y byddai'r holl fanciau, pa un a oeddent yn un o'r nifer hwnnw ai peidio, yn cynnig o leiaf un cyfrif mewn swyddfeydd post, a hwnnw yw eu cyfrif banc sylfaenol. Felly, a chymryd hynny gyda'i gilydd, ledled y DU, mae mwy na 20 miliwn o bobl eisoes yn gallu defnyddio eu cyfrifon banc mewn swyddfeydd post, ac mae miliwn o'r bobl hynny yng Nghymru.

Y darn olaf o'r jig-so oedd cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post. Mae hwnnw'n ddarn pwysig iawn o'r darlun, ond nid hwnnw yw'r unig fodd i gael arian budd-daliadau yn y swyddfa bost. Yr oedd y polisi yr ydym yn ei roi ar waith wedi'i nodi'n gyntaf yn Rhagfyr 2001 gan Douglas Alexander, a oedd bryd hynny'n Weinidog yn yr Adran Masnach a Diwydiant a oedd yn gyfrifol am wasanaethau post. Dyfynnaf o ateb a roddodd yn Nhy'r Cyffredin:

Rhoddir pwys yn strategaeth trosglwyddo a marchnata ACT ar sicrhau y bydd pob cwsmer yn cael y cyfrif sy'n fwyaf addas i'w amgylchiadau. Mae cyfrifon banc confensiynol a sylfaenol yn cynnig mwy o wasanaethau ac nid oes arnynt gyfyngiadau tebyg i'r rhai sydd ar gyfrif cerdyn Swyddfa'r Post felly mae'n debyg mai hwy fydd y dewis gorau i'r mwyafrif llethol.

I'r rhan fwyaf o bobl, y cyfrif mwyaf addas fydd cyfrif banc confensiynol neu gyfrif banc sylfaenol, boed hwnnw'n un newydd neu'n un sydd ganddynt eisoes. Mae cyfrif banc gan y mwyafrif llethol o hawl wyr eisoes, ac yr ydym yn disgwyl y byddant yn dewis eu defnyddio. Os nad oes cyfrif banc gan hawl wyr, cynigir y dewisiadau iddynt.

Dyna'r hyn y buom yn ceisio'i gyflawni dros y blynyddoedd diwethaf. Gofynnwyd i mi, yr wyf yn credu, pa nifer sydd wedi agor cyfrifon cerdyn a pha nifer sydd wedi agor cyfrifon banc.

Mr Leese: A gaf ddweud rhywbeth?

Mr Kuczys: Cewch.

Mr Leese: Credaf ei bod yn werth ychwanegu rhywbeth at yr hyn y mae Tony newydd ei ddweud, yn rhannol fel na phortreadir yr Adran Gwaith a Phensiynau fel y dihiryn yn hyn o beth. Mae'r penderfyniadau i droi at daliadau uniongyrchol a chyflwyno gwasanaethau bancio cyffredinol wedi'u rhoi ar waith, a hynny'n eithaf llwyddiannus, yr wyf yn credu, drwy ddilyn dull gweithredu cydgysylltiedig y Llywodraeth. Fe'i goruchwyliwyd gan bwyllgor yn Swyddfa'r Cabinet, y bu grwp llywio odano, yr oedd rhai o'i aelodau o'r Adran Masnach a Diwydiant. Nid un adran yn dilyn ei chwys ei hun a gafwyd, ac un arall yn gwneud rhywbeth cwbl wahanol. Credaf ei bod yn bwysig pwysleisio hynny.

Credaf hefyd ei bod yn cael ei anghofio'n aml y dyddiau hyn mai un o'r rhesymau dros gyflwyno rhaglen y gwasanaethau bancio cyffredinol, yn y lle cyntaf, oedd mynd i'r afael ag allgáu ariannol, gan fod rhwng 3 miliwn a 3.5 miliwn o oedolion ledled y wlad—yn ôl pa amcangyfrifon a ddefnyddid—nad ydynt yn cael mynediad i unrhyw fath o gyfrif banc. Un o'r rhesymau dros ddymuno annog pobl i agor cyfrif banc sylfaenol, o leiaf, yw eu galluogi i ymuno â'r brif ffrwd ariannol, rhywbeth nad yw cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post yn ei wneud, ond fe'i cynigiwyd, a defnyddio'r geiriau a arferid ar y pryd, i agor ffordd at gynhwysiant ariannol llawn i'r rhai nad oeddent eto'n gallu, yn barod neu'n awyddus i gael cyfrif banc sylfaenol. Nid oeddwn ond am ychwanegu'r pwyntiau hynny.

[24] **Edwina Hart:** Dywedaf rywbeth, os y caf, Gadeirydd.

Yr ydym i gyd yn gwybod am hyn. Yr ydym ni, fel pwyllgor, yn gwybod am yr holl wybodaeth a roesoch i ni, ac yr ydym wedi'i thrafod. Yr hyn yr ydym am ei gael yw'r atebion i'r cwestiynau a ofynasom am y materion tra ymarferol sy'n effeithio ar ein hetholwyr ac ar bobl yng Nghymru. Yr ydym wedi clywed hyn i gyd. Gwyddom am bwyllgorau'r Cabinet, gwyddom am hyn i gyd. Yr ydym yn wleidyddion eithaf soffistigedig yng Nghymru a gwyddom beth yw'r materion, a charem fynd at wraidd y cwestiynau yr ydym am gael atebion iddynt. Nid oes arom angen clywed am y cyd-destun; yr ydym wedi'i drafod dro ar ôl tro.

Mr Kuczys: Un o'r cwestiynau a ofynnwyd oedd pa sawl cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post a agorwyd a pha sawl cyfrif banc a agorwyd. Ynghylch cyfrifon cerdyn Swyddfa'r Post, os na all cymheiriaid yn Swyddfa'r Post roi ffigur diweddarach i mi, y ffigur diweddaraf sydd gennyf yw bod 3.7 miliwn o gyfrifon cerdyn Swyddfa'r Post wedi'u hagor hyd yma ledled Prydain Fawr, a disgwyliwn gael mwy na 4 miliwn erbyn cwblhau'r rhaglen y gwanwyn nesaf. Pa sawl cyfrif banc a agorwyd? Hyd y gallwn weld, bron ddim. Ni chredwn fod nifer sylweddol wedi dewis agor cyfrif banc sylfaenol, yn enwedig i gael talu eu budd-daliadau iddo. Yr hyn a ddigwyddodd, fel y disgwyliasom erioed, yw, gan fod cyfrif banc eisoes gan tua 90 y cant o'r rhai sy'n derbyn budd-dal, fod nifer wedi dewis eu defnyddio. Yr hyn na allwn ei weld, gan nad oes modd gwahanu'r ffigurau hyn, yw pa nifer o'r rheiny sydd wedyn yn defnyddio eu cyfrifon banc mewn swyddfeydd post. Gwyddom y bu tua 80 miliwn o drafodion bancio wedi mewn swyddfeydd post ers Ebrill 2003 pan ddechreuodd y gwasanaeth, ac mae'r nifer hwnnw'n dal i godi. Felly, anodd yw gweld y darlun cyfan, ond mae cymheiriaid yn Swyddfa'r Post wedi sôn am y nifer fawr o wasanaethau ariannol sydd bellach ar gael mewn swyddfeydd post. Mae'n gymysgedd tra gwahanol i'r hyn a geid yn yr hen ddyddiau o ran talu budd-daliadau.

Ynghylch y gweithdrefnau ar gyfer agor cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post, credaf fod pobl weithiau wedi ystyried a chyfrif y camau sy'n gysylltiedig â'r broses mewn gwahanol ffyrdd. Yr hyn a ddywedwn i yw, ym mha fodd bynnag y cyfrifwch ef, nad oes ond un cam ychwanegol, mewn gwirionedd, wrth agor cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post o'i gymharu ag agor cyfrif banc. Mae hefyd yn werth dweud bod cyrff fel Cyngor ar Bopeth a Bwrdd Safonau'r Cod Bancio wedi bod yn eithaf beirniadol o'r banciau am beidio â'i gwneud yn hawdd agor cyfrif banc. Fodd bynnag, o ran cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post, yr un cam ychwanegol yw bod yn rhaid ichi siarad â rhywun yn un o'r adrannau sy'n talu—yr Adran Gwaith a Phensiynau neu Gyllid y Wlad—am eich dymuniad i agor cyfrif. Ar ddiwedd y sgwrs honno, lle'r cwsmer yw penderfynu. Os ydyw wedi dewis cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post, anfonir ato rywbeth a elwir yn ddogfen gwahoddiad personol, neu PID yn fyr. Rhaid mynd â honno i swyddfa bost, lle y mae'n ateb sawl diben defnyddiol—mae'n dangos i'r is-bostfeistr pam yn union y mae'r cwsmer yno ac mae'n un o'r profion adnabod y mae arno'i angen i agor unrhyw gyfrif, gan gynnwys cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post. Fel arfer, bydd rhywun yn mynd â honno ynghyd â bil cwmni cyfleustod. Un mater a gododd, mewn cysylltiad ag agor cyfrif cerdyn, nad oedd yr un ohonom wedi'i ragweld—ni wnaeth Swyddfa'r Post na ninnau—yw bod nifer o bobl, a hwythau wedi agor cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post, nad oeddent yn sylweddoli ei bod yn dal yn ofynnol iddynt hysbysu'r adran a oedd yn eu talu beth yw'r cod didoli a rhif y cyfrif hwnnw fel y gwyddem ym mhle y dylem eu talu. Yr ydym wedi delio â hynny; yr ydym ni a Swyddfa'r Post wedi gweithio gyda'n gilydd i gyflwyno system newydd fel y creir ffurflen manylion cyfrif gan Swyddfa'r Post wrth agor y cyfrif, y bydd y cwsmer yn ei llofnodi a'r is-bostfeistr yn ei hanfon yn ôl wedyn at yr adran sy'n talu. Mae hynny'n gweithio'n dda, ac ymdrinwyd â hynny lle ceid problem, ond ni chredaf mai wrth agor y cyfrif y ceir y broblem. Gwn fod nifer o gwestiynau, y gallwn eu trosglwyddo i'm cymheiriaid yn Swyddfa'r Post, am y ffurflenni cais eu hunain, llofnodion sy'n mynd dros ymyl y blwch, ac yn y blaen. Byddaf yn falch o wneud sylw amdanynt, ond credaf y dylai fy nghymheiriaid yn Swyddfa'r Post gael cynnig ar ateb y cwestiynau hynny'n gyntaf.

[25] **Janice Gregory:** Credaf y bydd yn rhaid inni fod yn ofalus os byddwn yn mynd yn ôl a blaen wrth y bwrdd. Fel y dywedais, mae llawer iawn o faterion yn codi, ac yr wyf yn deall y mater sy'n ymwneud â'r ffurflenni'n iawn. Yn y pen draw, fodd bynnag, byddai'r ffurflenni wedi'u dylunio mewn modd penodol ar y dechrau, er mai Swyddfa'r Post a fyddai'n eu gweinyddu. Felly, gallaf ddeall pam y gofynnwyd y cwestiwn hwnnw i'r Adran Gwaith a Phensiynau. Ni fyddaf yn gallu dod yn ôl at gwestiynau. Deallaf fod gan aelodau gwestiynau pellach efallai, ond carwn i'r Adran Masnach a Diwydiant gyfrannu—os ydych wedi gorffen, Tony.

Mr Kuczys: A gaf wneud un pwynt pellach? Mae'n ymwneud â'r 'memo a ddatgelwyd', fel y'i gelwir, oddi wrth Canolfan Byd Gwaith, y gwn yn iawn amdano. Rhaid imi ddweud dau beth am hynny. Yr oedd yn ymwneud yn benodol â chwsmeriaid Canolfan Byd Gwaith, â cheiswyr gwaith, sy'n faes lle'r ydym wedi dweud erioed, yn glir iawn, yn achos rhai sy'n ceisio gwaith—y gobeithir na fyddant yn derbyn lwfans ceisiwr gwaith yr wythnos wedyn, ac y byddant mewn gwaith—nad cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post yw'r cyfrif mwyaf addas gan na fydd modd talu cyflogau iddo. Byddai'n well o lawer iddynt gael cyfrif banc sylfaenol, o leiaf, a'i ddefnyddio, ar bob cyfrif, yn y swyddfa bost. Gellir talu eu budd-daliadau iddo'n awr, ac wedyn eu cyflog pan gânt waith. Ni chelwyd hynny; buom yn gwbl agored erioed ynghylch hynny. Nid yw ond yn ymwneud â'r cwsmeriaid hynny; nid yw'n berthnasol i bensiynwyr, rhai sy'n derbyn budd-dal plant neu unrhyw gwsmeriaid eraill.

Dylwn egluro hefyd fod y targed o beri i naw o bob 10 o'r hawliadau newydd gael eu talu'n uniongyrchol yn cynnwys y rhai sy'n agor cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post. Nid oes unrhyw darged ar gyfer y nifer a fydd yn dewis cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post. Er hynny, mae targed i beri i naw o bob 10 o'r hawliadau newydd gael eu talu'n uniongyrchol, fel na fydd mwy nag un ym mhob 10 yn dal i gael ei dalu drwy ddulliau sy'n defnyddio papur.

[26] **Janice Gregory:** Diolch i chi, Tony. Gwir yw dweud ein bod wedi trafod y mater hwn am y trydydd tro, fel y dywedais yn gynharach. Hyderaf fod sylwadau aelodau am yr anawsterau a gaiff pobl sy'n agored i niwed, yn benodol, wrth agor y cyfrif cerdyn hwn, yn cael eu clywed yn glir, gan fod y mater hwn wedi'i godi dro ar ôl tro yn y pwyllgor hwn ac, fel y dywedodd y Gweinidog, yn y Siambr. Mae gwir angen ichi ymdrin â hyn. Mae'r ffigurau'n ymddangos yn eithaf da—4 miliwn â chyfrif cerdyn Swyddfa'r Post—ond mae rhywun yn meddwl tybed pa sawl ymgais y bu'n rhaid i'r bobl hynny ei gwneud i agor y cyfrifon cerdyn hynny ac a fydd pawb yr un mor benderfynol o ailymgeisio. Rhaid imi grybwyll yr ymdrechion hynny gan fod sawl blwyddyn wedi mynd heibio ers i mi orfod agor cyfrif banc newydd, ond, yn sicr, nid oes gennyf gof o'r holl gamau hynny a dogfen gwahoddiad personol. Ie, hyd y cofiaf, mae'n ddigon posibl fy mod wedi taro heibio i ddangos fy mil nwy, ond ni chodid unrhyw rwystrau o flaen rhywun. A dweud y gwir, byddai pobl yn gwneud eu gorau glas i geisio cael eich busnes. Hyd y gwn i, nid yw hynny wedi newid; mae'n ymddangos ei bod wedi newid yn achos cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post a'r awydd i beri i bobl wneud busnes gyda Swyddfa'r Post.

A oes gan y swyddogion o'r Adran Masnach a Diwydiant rywbeth i'w ychwanegu at hynny? Ai chi sy'n arwain ar hyn, Nigel, ynteu Mike?

Mr Leese: Efallai y byddai o gymorth pe byddwn yn ymdrin â'r pwynt olaf a wnaethoch, gan fy mod yn digwydd gwybod mai newidiadau i reoliadau bancio sy'n ei gwneud yn ofynnol dangos y dogfennau hynny. Pwrpas hynny yw atal gwyngalchu arian. Ni wn pa bryd y'u cyflwynwyd, ond dyna pam y mae'n rhaid inni gael y profion adnabod hynny bellach.

Af yn ôl, os caf, at y rhaglen ad-drefnu drefol, a dweud yn gyntaf oll y byddwn yn dychwelyd â'r neges a gyflewyd am y dicter y mae aelodau'r pwyllgor, a'r bobl a gynrychiolant, yn ei deimlo. Ni fydd hynny'n peri syndod. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwybod yn iawn, o'i phrofiad yn ei hetholaeth ac yn y Senedd, am y dicter a achosir drwy hyn. Fel y dywedwyd yn gynharach, mae'n peri digalondid. Mae'r ddau beth hynny'n wir. Ni allwn ond derbyn mai felly y mae. Mae'n peri digalondid, mae'n anodd, ac mae'n achosi llawer iawn o galedi i'r unigolion a effeithir drwy gau eu swyddfa bost leol. Credaf, i'r un graddau, ei bod yn hollbwysig inni ddilyn y llwybr hwn. Nid penderfyniad gwleidyddol yn unig ydyw, gan y gallai fod wedi'i gambortreadu felly'n gynharach. Gwnaed y penderfyniad gan wleidyddion, ond yr oedd yn seiliedig ar adroddiad yr Uned Perfformiad ac Arloesi a gyhoeddwyd ym Mehefin 2000. Dangosodd hynny ar y pryd—ymhell cyn dechrau troi at dalu'n uniongyrchol—fod busnes rhwydwaith Swyddfa'r Post yn dirywio'n enbyd, ei fod yn colli £200 miliwn y flwyddyn, yn colli cwsmeriaid, yn methu â diwallu anghenion cwsmeriaid modern o ran cynhyrchion, ac yn methu â chynnig gwasanaethau y mae ar bobl eu hangen yn y man y maent am eu cael. Canfuont nad oedd Swyddfa'r Post wedi cymryd sylw o newidiadau mewn cymdeithas, boed hwy'n ymwneud â'r rhyngwyd, cynnydd yn nifer y perchnogion ceir, neu siopa mewn archfarchnadoedd. Nodwyd yr holl bethau hynny'n glir, ac yn ddiflas o bosibl, yn yr adroddiad hwnnw.

Y casgliad y daethant iddo oedd, os na wneid dim i weddnewid y busnes, y byddai'n dirywio'n derfynol. Gwnaethant sawl argymhelliad, y derbyniwyd pob un ohonynt gan y Llywodraeth, fel y gwyddoch. Un o'r rheini oedd, os cyflwynai Swyddfa'r Post gynigion i gau canghennau trefol, i gysoni'r cyflenwad a'r galw, y dylai'r Llywodraeth ystyried rhoi cymorth ariannol at hynny. Gwnaethom hynny, fe'i rhoddwyd gerbron y Senedd ac fe'i cymeradwywyd ganddi. Wedyn aethom ymhellach na hynny: cyflwynasom arian a oedd i gael ei fuddsoddi yn y swyddfeydd post a oedd yn weddill. Mae'r rhesymau economaidd sydd wrth wraidd hyn yn anwadadwy, felly ni chredaf i'r penderfyniad gael ei wneud yn ddifeddwl, ond rhaid ad-drefnu'r rhwydwaith trefol fel na fydd y cyfan yn mynd i'r gwellt rywdro yn y dyfodol.

Awgrymwyd, pe na phenderfynasid newid i dalu pobl yn uniongyrchol, ni fyddai hyn wedi digwydd. Wel, yn gyntaf oll, yr oedd eisoes yn digwydd, fel y dangosodd adroddiad yr uned perfformiad ac arloesedd. Dyfynnaf rai ystadegau i chi: yn y pum mlynedd o fis Mawrth 1997 i fis Mawrth 2002—fel y dywedais, ymhell cyn troi at dalu'n uniongyrchol—yr oedd trafodion Girobank mewn swyddfeydd post wedi gostwng o 37 y cant, trafodion cynilion cenedlaethol o 24 y cant, taliadau biliau teleffon o 25 y cant, ac archebion post o 13 y cant. Nid oedd y cynnydd yn nifer y trafodion ar bethau eraill, fel trwyddedau cerbydau a gwerthu tocynnau loteri, yn ddigon i wrthbwysu hynny, ac, ar y pryd, yr oedd cynnydd eisoes yn nifer y taliadau budd-dal a delid i gyfrifon banc—gan fod dewis ar gael ers cryn amser i gael eu talu i gyfrifon banc. Yn wir, erbyn Ebrill 2003, yr oedd 43 y cant o'r taliadau budd-dal eisoes yn cael eu talu yn y modd hwnnw. Felly, bu'r holl newidiadau hynny'n digwydd yn y gymdeithas ehangach a dyna pam y mae'r Llywodraeth a Swyddfa'r Post yn gorfod ymateb iddynt; nid ydynt yn dilyn rhyw benderfyniad mympwyol.

Awgrymwyd bod dichonadwyedd rhai swyddfeydd post yn cael ei danseilio oherwydd nifer y cyfrifon cerdyn Swyddfa'r Post a allai fynd drwodd. Mae fy nghymheiriaid yn yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi sôn am y dewisiadau ynghylch hynny, a gadawaf y mater hwnnw. Fodd bynnag, o ran dichonadwyedd Swyddfa'r Post yn y dyfodol, mae fy Ngweinidogion yn bendant o'r farn nad yw cyfrifon cerdyn Swyddfa'r Post ond yn un rhan o'r broses sy'n mynd rhagddi; mae'r bancio ehangach a'r gwasanaethau ariannol newydd y mae David Mills a'i dimau'n eu cyflwyno'n angenrheidiol hefyd, oherwydd, er mwyn parhau, bydd yn rhaid i Swyddfa'r Post ddechrau cynnig gwasanaethau y mae pob un ohonom yn dymuno eu defnyddio a pheidio â chanolbwyntio ar yr hyn a fu, ers amser maith, yn farchnad sy'n dirywio.

Holwyd a oedd yr ymgynghori'n ystyrion—neu yr wyf yn awgrymu bod hynny wedi'i awgrymu ar sawl achlysur yma, Gadeirydd. Ni allaf ond dweud, o'n safbwynt ni, ein bod yn credu bod y broses ymgynghori'n un ddilys. Mae wedi datblygu hefyd. Nid oedd yn berffaith ar y dechrau. Yr oedd yr ymgynghori ar y dechrau'n seiliedig ar god ymarfer yr oedd Golwg ar y Post a'r cwmni wedi cytuno arno eisoes, ac mae hwnnw wedi newid, yn rhannol mewn ymateb i gwynion gan wleidyddion ac Aelodau'r Cynulliad, ac mae wedi newid dros amser. Credaf fod y broses yn well, ond ni ddylem gymysgu rhwng ymgynghoriad a refferendwm—nid yw'r un peth; nid yw'n bleidlais ar y dymuniad i gadw'ch swyddfa bost yn agored. Yn y pen draw, mae'n amlwg bod y penderfyniad i gau swyddfa bost benodol yn fater masnachol i Swyddfa'r Post a buom yn agored iawn am hynny—felly y bu er 1969 pan ymgorfforwyd y cwmni a gellid dadlau ei fod yn fwy felly'n awr a ninnau wedi'i wneud yn gwmni cyfyngedig cyhoeddus.

Ynghylch swyddfeydd post gwledig, ar y dechrau un, Edwina, dywedaso—

[27] **Edwina Hart:** Y Gweinidog. Yr wyf yn si[^]wr nad alwech Mrs Hewitt yn Patricia.

Mr Leese: Na fyddwn. Ymddiheuraf, Weinidog. Nid oeddwn ond wedi edrych draw a darllen yr hyn a oedd ar y plât enw. Ymddiheuraf.

Weinidog, ar y dechrau cyfeiriasoch at ymestyn yr arian hyd 2008 gan geisio eglurhad ar hynny, o bosibl. Carwn egluro'r sefyllfa—mae'r cyllid trosiannol wedi'i drosglwyddo i 2008, yn amodol ar reoliadau ar gymorth gwladol, ond dim ond yr arian ar ei gyfer yw hynny. Y rheswm dros ei ddwyn ymlaen yw y penderfynwyd nad oedd digon o wybodaeth ar gael eto—yn enwedig o'r cynlluniau peilot—ar ddulliau gweithio newydd er mwyn gwneud penderfyniadau tymor hir pwysig ynghylch yr heriau sy'n wynebu'r swyddfeydd post gwledig. Fodd bynnag, ynghylch swyddfeydd na ellir osgoi eu cau, yr ydym wedi gofyn i Swyddfa'r Post roi adroddiad i ni ar y cynlluniau peilot erbyn diwedd 2005, ynghyd ag adroddiad am y goblygiadau sydd yng nghanlyniadau'r cynlluniau peilot hynny i'r busnes fel y mae hi'n ei weld. Dywedasom y byddwn yn cynnal adolygiad, ar ôl cael hynny, ac yn penderfynu a ddylid ymestyn y cyfyngiad ar swyddfeydd post na ellir osgoi eu cau, ac yn pennu'r modd i wneud hynny. Felly, ar hyn o bryd, mae'n rhedeg fel y bwriadwyd yn wreiddiol hyd 2006 a gellid parhau ag ef ar ôl hynny ledled y wlad. Fodd bynnag, ni chredaf fod hynny o reidrwydd yn effeithio ar yr ohebiaeth a gawsoch ar wahân â Swyddfa'r Post ynghylch eich cynllun eich hun.

Credaf fod pwynt wedi'i wneud, os deallais yn iawn, am y trawsnewid hyd 2008. Credaf fod y cwestiwn neu'r pwynt hwnnw'n ymwneud â'r hyn a wnawn ar ôl 2008 a'r gobaith y byddem yn rhoi pwys ar yr agwedd gadarnhaol—sut y gallem wneud rhywbeth yn hytrach na pheidio â gwneud rhywbeth. Mae gwaith wedi dechrau eisoes. Yn gyntaf, mae'r cynlluniau peilot wedi cychwyn ac mae hynny'n gadarnhaol iawn. Y bwriad wrth wneud hynny yw canfod dulliau newydd a mwy effeithiol o gynnig gwasanaethau i bobl mewn cymunedau gwledig. Ceir grŵp ar gyfer Whitehall cyfan hefyd sydd newydd ei sefydlu, ac ynddo gynrychiolwyr o Weithrediaeth y Cynulliad. Bydd yn ystyried gwasanaethau Swyddfa'r Post yng nghyd-destun ehangach manwerthu a mynediad i arian mewn ardaloedd gwledig. Unwaith eto, y bwriad fydd ystyried yr hyn y gellir ei wneud yn gadarnhaol, ond bydd yn rhaid inni gofio drwy'r amser fod y rhwydwaith gwledig yn wynebu heriau aruthrol, ar hyn o bryd, ac, yn wir, fod tua 90 y cant o'r rhwydwaith gwledig yn gwneud colled. Felly, drwy ganfod dulliau mwy effeithlon o'i redeg a, gobeithio, cael cynhyrchion newydd i ddenu arian newydd, dylem allu sicrhau canlyniad mwy cadarnhaol. Y bwriad yw y bydd y gwaith hwnnw'n cael ei gwblhau yr un pryd â'r gwaith yn y cynlluniau peilot.

Cywirwch fi os wyf yn camgymryd, os gwelwch yn dda, ond cafwyd rhyw sylw ynghylch a oedd swyddfeydd post mewn ardaloedd gwledig yn cau drwy hap a damwain—credaf mai hynny a ddywedwyd. Yr wyf yn credu bod cyfarwyddyd yn bod o hyd na ddylid cau unrhyw swyddfeydd post mewn ardaloedd gwledig os gellir osgoi hynny a gwnaiff Swyddfa'r Post bopeth yn ei gallu i gadw'r swyddfeydd post yn agored, ond ceir rhai achosion o hyd, er hynny, lle na ellir peidio â chau. Gwaetha'r modd, mae hynny'n tueddu i ddigwydd drwy hap a damwain gan ei fod yn cael ei ysgogi gan fwyaf gan benderfyniadau is-bostfeistri i roi'r gorau i fusnes, un ai i ymddeol neu oherwydd iechyd gwael, ac wedyn ni all Swyddfa'r Post ddod o hyd i rywun arall i gymryd y busnes, er pob ymdrech.

[28] **Janice Gregory:** Diolch i chi, Nigel. Mae'n gas gennyf wneud hyn o'r Gadair, ond rhaid imi anghydweld â'r gosodiad diwethaf a wnaethoch gan fod gennym dystiolaeth na wnaeth Swyddfa'r Post fawr o ymdrech i geisio dod o hyd i rai i gymryd drosodd swyddfeydd post. Mae un yn fy etholaeth i, ond ni fanylaf am hynny'n awr gan fy mod yn fwy ymwybodol na neb o'r cyfyngiadau ar amser. Rhaid imi ddod yn ôl atoch, Tony, ac yr wyf yn ddiolchgar i'r ymwelwyr eraill a gydnabu iddynt fod gerbron y pwyllgor ar ddau achlysur yn y gorffennol i ateb cwestiynau tebyg iawn. Cododd Catherine Thomas fater o bwys gyda chi ynghylch bwlio dros y teleffon. Carwn ichi ymdrin â hynny'n awr, os gwelwch yn dda.

Mr Kuczys: Byddaf yn falch o wneud hynny. Nid oes a wnelo bwlio neu aflonyddu ar bobl ddim â'n gwaith ni. Clywais yr hyn a ddywedodd aelodau'r pwyllgor. Anfonwch y dystiolaeth sydd gennych at Christine ac ataf fi drwy law'r clerod, os gwelwch yn dda. Nid oes unrhyw fwriad i fwlio neu aflonyddu, yn sicr, ac arswydais pan glywais yr honiad. Felly, byddwn yn ystyried unrhyw awgrymiadau o'r fath yn ddifrifol iawn.

[29] **Edwina Hart:** Pan siaradwn â'n banciau, dywedir wrthym bob tro y gallai'r alwad gael ei monitro i ddibenion hyfforddi. A ydych chi'n gwneud hynny fel rhan o'ch gwaith chi? Os gwnaethoch asesiad, diddorol fyddai gweld y math o iaith a ddefnyddir. Os nad ydych yn gwneud hynny—byddwn yn hoffi ichi wneud asesiad, wrth gwrs—gallai fod yn ddefnyddiol iawn i dawelu ofnau pobl os gwyddent y gallai trydydd parti wrando ar rai o'r tapiau ac yn y blaen, ac adrodd yn ôl ar fuddiannau defnyddwyr mewn cysylltiad â hyn, gydag unigolyn.

Ms Goodfellow: Yr ydym yn gwneud hynny'n sicr, at ddibenion hyfforddi ac i sicrhau bod y gwasanaeth yn addas. Mae ein gwasanaethau'n dilyn sgriptiau'n eithaf manwl. Ategaf a rhannaf y pryderon sydd gan Tony ac os yw unrhyw gwsmer wedi profi'r hyn y cred ei fod yn fwlio neu'n arfer amhriodol, byddem yn dymuno clywed am hynny. Yr ydym yn recordio negeseuon, nid yn unig ar gyfer hyfforddi ond i sicrhau y defnyddir sgriptiau addas. Felly byddem yn awyddus iawn i gael unrhyw wybodaeth y gallwch ei roi i ni am hynny.

[30] **Janice Gregory:** Yr wyf yn si[^]wr y bydd Catherine, ac unrhyw aelodau eraill sydd â thystiolaeth, yn sianelu pob dim drwy law'r clerod. Byddai diddordeb gennyf weld y sgriptiau hynny. Ni wn a fyddai hynny o ddiddordeb i unrhyw aelod arall hefyd. Efallai, er na allem wrando ar y tapiau mewn cyfarfod o'r pwyllgor, y byddai modd o leiaf inni edrych ar y sgriptiau os yw hynny'n bosibl.

Ms Goodfellow: Byddwn yn falch iawn o wneud hynny. Cyfaddefaf, pan gefais fy mriffio ar gyfer heddiw, imi ddweud na fyddai neb am weld manylion y sgriptiau. Yn benodol, mae gennym sgript Gymraeg hefyd. Byddwn yn fodlon iawn eu rhannu â chi. Cymeraf y gallem drefnu hynny drwy'r ysgrifenyddiaeth.

[31] **Janice Gregory:** A ydych yn dymuno cyfrannu'n awr, Eifion?

Mr Pritchard: Nid oes gennyf ddim i'w ychwanegu.

[32] **Janice Gregory:** Ken neu Gary, a ydych yn dymuno cyfrannu?

Mr Hanbury: Calonogol iawn yw clywed gofyn yr holl gwestiynau hyn i Swyddfa'r Post a'r Adran Masnach a Diwydiant gan ei bod fel petai bron ddwy flynedd wedi mynd heibio ers imi gysylltu â'r Gweinidog ynghylch problemau Swyddfa'r Post. Fodd bynnag, af yn fy mlaen, ac ni wnaf esgusodion o gwbl am seinio rhybudd ynghylch y Post Brenhinol. Mae'r cwestiwn ar y Gymraeg, er enghraifft, yn un pwysig. Pan drosglwyddwyd y post o Fae Colwyn a Bangor, fe'i dilynwyd i lawr y wibffordd gan weithwyr sydd bellach yn gweithio yng Nghaer, mewn adran lle y maent yn delio ag eitemau post Cymraeg y Post Brenhinol. Ni allaf ddychmygu y byddant am fynd mor bell â Manceinion. Nid wyf am ddod yma'n rheolaidd i broffwydo gwae a dweud, er enghraifft, y gwyddom bellach y bydd swyddfa Hwlffordd yn cau—sef prif swyddfa olaf y Goron yn sir Benfro. Nid wyf yn dymuno dweud imi weld dogfen a ddatgelwyd lle y cawn wybod y bydd nifer y canolfannau post yn y DU yn gostwng o 73 i 31. Byddai'n beth da pe na fyddai canolfannau post Caer, Caerdydd ac Abertawe ar y rhestr dargedau honno. Gallai fod felly, gan fy mod wedi bod yn sôn am hynny yma. Fel y dywedodd Mr Thomas, rhaid cael buddsoddi ac ymrwymiad gan y Post Brenhinol i fuddsoddi yn y canolfannau post hyn—mae'n diogelu gwasanaethau dosbarthu o fewn diwrnod. Os ceir buddsoddi o'r fath mewn canolfannau post a swyddfeydd dosbarthu, ac os ceir sgîl-effaith, caiff y post ei ddsbarthu'n gynharach—ni fydd pobl am weld postmyn yn dod heibio am 3 p.m. neu 4 p.m. yn y prynhawn. Felly, rhaid cael buddsoddi sylweddol ac ymrwymiad i Gymru. Ni cheir Swyddfa'r Post Gymreig. Gwyddom mai gweithrediad o eiddo'r Post Brenhinol yn y DU ydyw. Rhaid i'r ymrwymiad fod yn un diffuant, ac os aiff yr Adran Masnach a Diwydiant oddi yma heddiw gan feddwl y gallai orfod derbyn y bydd y sefyllfa yng Nghymru, yr Alban, a Gogledd Iwerddon efallai, yn un anodd, byddai hynny'n beth da, ac mae'n beth da i'r undeb. Gan hynny, yr wyf yn falch bod Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu wedi bod â rhan yn hyn, ac, unwaith eto, carwn ddiolch i'r Gweinidog am drefnu dadl o'r math hwn, lle y gallwn ddadlau a gwyntyllu ein problemau, boed hwy'n ymwneud â Swyddfa'r Post neu'r Post Brenhinol.

[33] **Janice Gregory:** Diolch i chi, Ken. Dywedwn fod hynny'n rhan bwysig iawn o'r ddadl hon. Stuart, a ydych chi neu Dave am gau pen y mwdwl—yn gryno, os oes modd—ar eich rhan?

Mr Taylor: Yr wyf wedi nodi pwy a ofynnodd gwestiynau penodol, ac ymatebaf ichi drwy lythyr ar y pwyntiau hynny. Er mwyn arbed amser, ceisiaf grynhoi.

[34] **Janice Gregory:** Os gallech gyfeirio eich ymatebion drwy'r clerc, ânt at bob aelod, ac nid at y rhai a ofynnodd y cwestiwn yn unig.

Mr Taylor: Gwnaf hynny. Ynghylch sefyllfa'r Post Brenhinol, clywn y pwyntiau a wnaed am ansawdd y gwasanaeth yn glir. William a wnaeth y pwynt am gwsmeriaid busnes yn benodol. Ansawdd y gwasanaeth yw un o'r ffactorau y mae pobl yn eu dewis mewn unrhyw fusnes o ran y gwerth am arian a gynigiwn. Nid ansawdd yn unig sydd dan sylw, er bod hynny'n bwysig, ond hefyd pris, mynediad a gweithdrefnau i gywiro pethau pan ânt o chwith, fel a ddigwydd, gwaetha'r modd. Yr ydym yn ymwybodol iawn y bydd y gystadleuaeth yn dechrau yn y 12 i 18 mis nesaf. Bûm yng nghanolfan bost Caer neithiwr yn tywys gr^wp o bobl busnes o gwmpas y ganolfan, a gallem weld yno bost a anfonwyd drwy ein rhwydwaith gan Business Post, a oedd wedi'i gymryd oddi wrth gwsmeriaid mawr—cwsmeriaid sy'n anfon biliau fel Powergen ydynt gan mwyaf—ac yr oedd y post yno'n barod i'w drafod gan ein staff. Mae hynny'n rhan o gytundeb masnachol a wnaethom â'r corff hwinnw, ond dyna'r arwydd cyntaf—a g^wyr Gary a Ken mai felly y mae—o wir gystadlu. Bydd yn bwysig cael cystadlu yn y farchnad post, yn ein barn ni. Mae unrhyw fusnes sydd heb gystadleuaeth mewn lle i allu gorffwys ar ei fri a meddwl bod popeth yn iawn. Os parhawn i wneud hynny mewn unrhyw fodd yn y dyfodol, cawn ein haeddiant, sef colli cyfran o'r farchnad.

Rhaid inni sicrhau ansawdd, a rhaid inni ddarparu'r gwasanaethau hynny y mae ar gwsmeriaid eu heisiau. Mae amser dosbarthu'n ffactor yr ydym yn ymwybodol ohono, ac yn pryderu yn ei gylch, ac yr ydym yn ymdrechu i'w gywiro, yn enwedig yn achos cwsmeriaid busnes. Yr wyf wedi sôn am gystadleuaeth. Mae'r ymgynghoriad wedi dechrau, a gallech deimlo y carech ymateb i hynny, fel corff, i Postcomm. Fe'ch anogem i wneud hynny, a byddwn yn falch o roi gwybod am ein safbwynt, os bydd hynny o gymorth i'ch trafodion yn hynny o beth. Y pwnc pwysig yn ein golwg ni yn y maes hwn yw ein bod am weld cyflwyno cystadleuaeth mewn modd sy'n cynnig dewis i gwsmeriaid, a rhyw fath o iawn os aiff pethau o chwith. Os dywedir wrth gwsmeriaid y cânt wasanaeth o ansawdd da, mae'n bwysig cael gwybod sut y bydd y cystadleuwyr hynny sy'n dod i'r farchnad yn gyfrifol, fel yr ydym ni'n awr, am adrodd ar ansawdd y gwasanaeth ac egluro hynny i'r corff defnyddwyr ac i grwpiau allanol. Yr ydym yn llwyr ddisgwyl na fydd cystadleuwyr am ymgymryd â'r holl waith o'r dechrau o'r diwedd, ac y byddant yn eithaf bodlon cymryd y rhannau y barnant eu bod yn broffidiol. Efallai na fyddant am ddosbarthu unrhyw lythyrau ar hyn o bryd, er enghraifft, gan mai hynny yw'r rhan ddrutaf o'n gwaith. Rhaid inni amddiffyn yr un peth hwnnw sy'n peri i ni a'r DU fod yn unigryw, sef ein rhwymedigaeth i gynnig gwasanaeth cyffredinol. Os câi hynny ei danseilio mewn unrhyw fodd, parai anfantais ddybryd i holl ddefnyddwyr y post yn y DU. Mae honno'n ffaith bwysig y credwn y dylai Postcomm fod yn ymwybodol ohoni.

Ynghylch Swyddfa'r Post Cyf, ni allaf orbwysleisio mor bwysig yw'r dewis newydd o gynhyrchion sy'n cael ei gynnig—y cynhyrchion ariannol newydd. Gwnaeth Mark bwynt penodol ynghylch yr angen inni sicrhau nad ydym yn torri unrhyw ddeddfau yn ein gwasanaethau ariannol. Mae'n amlwg bod rhaid inni fod yn fusnes sy'n rhoi gwybod i bobl am wasanaethau; nid gwasanaeth ymgynghorol ydym. Rhaid inni ddarparu'r gwasanaethau ym mhob swyddfa bost. Mae mynediad yn hollbwysig, a swyddfeydd post biau'r dyfodol i raddau helaeth oherwydd, fel y dywedodd Huw, mae banciau wedi penderfynu symud o ardaloedd gwledig, am ba bynnag reswm. Credaf fod potensial aruthrol i Swyddfa'r Post, felly, os cynigia'r gwasanaethau'n iawn ac os yw ei chyfraddau llog yn gystadleuol ac yn y blaen, gan y gallem droi'n fanc y bobl ledled Cymru. Mae'n bwysig inni ddeall hynny.

Mae'r farchnad yn un enfawr, ac ar hyn o bryd nid ydym yn manteisio arni i'r eithaf, yn sicr. Bydd pobl ifanc yn cerdded heibio i swyddfeydd post bob diwrnod heb ystyried mynd i mewn. Wrth weithio yn y farchnad, mae'n bwysig iawn nodi bod gennym beth wmbredd o wasanaethau bellach sy'n berthnasol iawn i fyfyrwyr lle y maent ar gael, gan eu bod yn llawer mwy cyfleus, o bosibl, na'u banc lleol. Rhaid inni wneud rhagor i hybu ymwybyddiaeth o hynny. Yn y bôn, o safbwynt y grŵp cyfan, gofynnir inni redeg y busnes ar sail fasnachol. Mae fy nghymheiriaid yn yr Adran Masnach a Diwydiant ac yn y blaen wedi egluro mai cwmni cyhoeddus cyfyngedig ydym, a bod canfyddiad ymysg y cyhoedd mai gwasanaeth cyhoeddus ydym. Rhaid imi gytuno ei bod yn hawdd tybio hynny o ran rhai o'n gwasanaethau gan ein bod yn dosbarthu'r post bob diwrnod am bris gwarantedig, ac mewn ardaloedd gwledig yr ydym yn cadw swyddfeydd post, y gwyddom eu bod yn amhroffidiol, drwy daliad y rhwydwaith cymdeithasol.

Bydd y gwasanaethau cyhoeddus gorau yn y byd yn dweud wrthy, os byddant yn rhedeg eu busnesau ar sail fasnachol, ac felly'n ymagweddu'n fasnachol at yr hyn a wnânt, y bydd unrhyw fuddsoddi ganddynt, ac unrhyw elw o hynny, yn fodd iddynt ailfuddsoddi yn y gwasanaeth hwnnw. Ers rhai blynyddoedd, yn y 10 mlynedd diwethaf mae'n debyg, gwendid y busnes oedd nad oedd gennym ddigon o arian i'w ailfuddsoddi yn y gwasanaeth hwnnw. Mae'n bwysig iawn inni wneud hynny. Felly, pa un a yw'n wasanaeth cyhoeddus neu'n endid masnachol, y brif ystyriaeth yw os ydym yn ymagweddu'n fasnachol at y modd yr ydym yn rhedeg ein gwasanaethau, eu bod yn debygol o wella oherwydd hynny fel y gallwn fuddsoddi yn ein pobl, ein gwasanaethau ac yn y blaen. Dyna hi, yn gryno.

[35] **Janice Gregory:** Diolch i chi, Stuart. Rhaid imi ddod â'r cyfarfod i ben, er fy mod yn sicr y gallai'r rhan fwyaf ohonom eistedd yma am y rhan fwyaf o'r prynhawn yn trafod gwahanol faterion. Diolchaf i'n holl ymwelwyr unwaith eto am ddod i'r pwyllgor ac am eu cyflwyniadau. Byddwn yn anfon gwybodaeth atoch ynghylch cwestiynau aelodau, a gofynnwn i chi ymateb yn yr un modd. Os oes unrhyw beth y dymunwch ei ychwanegu, mae pob croeso ichi anfon gair ataf.